Daliadau'r Post Brenhinol ccc

Cyfrifon

2002 - 2003

Daliadau'r Post Brenhinol ccc

Rhif Cofrestru 4074919

Cyfarwyddwyr

Dangosir manylion y Cyfarwyddwyr ar dudalennau 11 a 12.

Ysgrifennydd

Jonathan Evans

Archwilwyr

Ernst & Young LLP

Swyddfa Gofrestredig

148 Old Street
Llundain
EC1V 9HQ

Daliadau'r Post Brenhinol ccc

Cyfrifon

2002 - 2003

Cynnwys

Datganiad y Cadeirydd	2
Cyd-Ddatganiad Dirprwy Gadeirydd a Phrif Weithredwr	4
Arolwg Ariannol	6
Bwrdd Daliadau'r Post Brenhinol ccc	12
Adroddiad y Cyfarwyddwyr	14
Rheolaeth Gorfforaethol	16
Rheolaeth Fewnol	17
Adroddiadau ar Daliadau i Gyfarwyddwyr	18
Datganiad o gyfrifoldebau Cyfarwyddwyr mewn perthynas â'r cyfrifon	23
Adroddiad archwiliwr annibynnol i aelodau Daliadau'r Post Brenhinol ccc	24
Polisïau cyfrifeg a nodiadau cyffredinol	25
Cyfrif elw a cholled y grŵp	29
Datganiad y grŵp ar gyfanswm enillion a cholledion canfyddedig	30
Mantolenni	31
Datganiad llif arian y grŵp	32
Nodiadau ar y datganiad llif arian	34
Nodiadau ar y cyfrifon	35
Crynodeb pum mlynedd	58
Rhestr o dermau	59
Cysylltiadau	61

Daliadau'r Post Brenhinol ccc

Datganiad y Cadeirydd

Mae blwyddyn un ein Cynllun Adnewyddu wedi bod yn flwyddyn o gynnydd. Blwyddyn pan ddechreuasom reoli ein costau, lleihau argostau a chymryd y camau gwirioneddol cyntaf tuag at greu cwmni cynaliadwy a ffynniannus.

Ar ddiwedd blwyddyn un ein Cynllun Adnewyddu tair blynedd, mae'r Grŵp wedi gwneud colled cyn trethi o £661m a cholled o £197m o weithrediadau. Mae hyn yn welliant o £121m neu 38% ar ein colledion o weithrediadau yn 2001-02.

Mae ein pobl wedi gweithio'n galed i gyflawni'r cynnydd hwn a diolch iddynt hwy medrwn wynebu'r dyfodol yn fwy hyderus heddiw. Mae llawer mwy o waith i'w wneud a rhai peryglon arwyddocaol i ddelio gyda hwy cyn y medrwn ddangos ein bod wedi trawsnewid ein busnes yn gwmni proffidiol, modern a chystadleuol.

Lansiwyd cynllun "Share in Success" yn gynharach eleni, a fydd yn talu difidend i bob un o'n pobl cymwys os cyflawnwn y targedau elw yn nhrydydd blwyddyn y Cynllun Adnewyddu. Rwy'n falch o adrodd bod canlyniadau eleni yn dangos ein bod ar y llwybr cywir i wobrwyo ein pobl am eu gwaith caled yn troi'r busnes hwn yn un proffidiol.

Rydym wedi penodi tîm arwain profiadol gydag Elmar Toime, y Dirprwy Gadeirydd Gweithredol, Adam Crozier, Prif Weithredwr Grŵp y Post Brenhinol ccc, a David Mills, Prif Weithredwr Swyddfa'r Post Cyf, ynghyd â chwe penodiad allanol i'r Bwrdd.

Mae gwasanaeth i gwsmeriaid wedi gwella trwy gydol y flwyddyn gyda chynnydd cyffredinol yn ein ansawdd gwasanaeth ar gyfer llythyrau Dosbarth Cyntaf, ond methasom a chyflawni ein targedau diwedd blwyddyn. Gwnaeth Parcelforce Worldwide yn well na'i darged o 96% ar gyfer dosbarthiad 24 awr PF, gan gyflawni 98%, ac fe gymerodd Swyddfa'r Post Cyf gamau mawrion ymlaen wrth wella amser ciwio dros y llynedd, gan orffen ar 84.3%. Mae gwell cysylltiadau gweithwyr, yn arwain at lai o streicio gyda dyddiau streic i lawr 90% blwyddyn ar flwyddyn, wedi chwarae rhan bwysig yn hyn o beth, ond mae mwy i'w wneud eto i gyflawni ein targedau gwasanaeth ar draws pob cynnyrch allweddol.

Mae ein hamcanion ar gyfer y cwmni yn aros yn eglur:

- Gwneud ein busnes yn lle gwych i weithio ynddo

- Gwella gwasanaeth i gwsmeriaid

- Dychwelyd i broffidioldeb

- Cyflwyno llif arian positif

Er mwyn cyflawni'r amcanion hyn, rhaid i ni gyflwyno rhannau holl-bwysig ein Cynllun Adnewyddu, sy'n ad-drefnu ein gweithrediadau yn sylfaenol er mwyn gwneud Grŵp y Post Brenhinol yn fusnes proffidiol a chynaliadwy.

Mae Parcelforce Worldwide wedi arwain y ffordd trwy weithio mewn partneriaeth gyda'i bobl i ddileu nwyddau amhroffidiol ac agweddau aneffeithiol ei weithrediadau. Nid yw cynnydd wedi bod mor gyflym yng ngweithrediadau post y DG wrth i ni weithio trwy nifer o faterion, gan gynnwys ystyried yr amgylchfyd rheoli.

Mae'r 'llawfeddyginiaeth' radical a grybwyllais y llynedd yn golygu ein bod wedi torri argostau rheoli a gweinyddol ar draws y busnes. O ben i ben, mae rhyw 16,000 o swyddi wedi mynd, gyda rhyw 5,500 yn ymddiswyddo'n wirfoddol a 4,600 o swyddi heb gael eu llenwi ar ôl i bobl adael. Mae rhyw 6,500 o swyddi wedi trosglwyddo i swyddi newydd dan drefniadau TUPE.

Rydym bellach wedi sicrhau pecyn o reolaeth prisiau y gellir ymdopi ag o mewn ymgynghoriad gyda Postcomm, ein Rheolydd. Mae'r rheolaethau hyn yn caniatau i ni ychwanegu 1g i gost stampiau Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth - y cynnydd cyntaf mewn pris Dosbarth Cyntaf am dair blynedd. Rydym yn cynnig o hyd y pris isaf ac eto'r canllawiau dosbarthu uchaf yn Ewrop.

Yr hyn sydd ei angen arnom nawr yw pris teg a rhesymol am fynediad cystadleuwyr i'n rhwydwaith dosbarthu. Ar hyn o bryd, gallai cynigion y Rheolydd ar y pris a bennir am fynediad i'n rhwydwaith - sydd y credwn unwaith eto yn groes i Gyfarwyddyd Post CE - arwain at golli £1bn o refeniw i'r Post Brenhinol dros y blynyddoedd i ddod a gorfodi'r Cwmni i ddidoli a dosbarthu llythyrau am bris llawer is na'r costau economaidd. Mae'n hanfodol ein bod yn codi pris masnachol am ein gwasanaeth os ydym i warchod pris cyffredinol a gwasanaeth i holl gwsmeriaid.

Cytunwyd pecyn benthyciad masnachol gwerth £1,044m gyda'r Llywodraeth. Mae sicrhau hyn yn golygu y medrwn ganolbwyntio ar gyflwyno'r arbedion a nodwyd yn ein Cynllun Adnewyddu er mwyn arwain y Cwmni yn ôl i broffidioldeb.

Datganiad y Cadeirydd (parhad)

At hyn, mae'r Llywodraeth wedi cytuno cefnogaeth ariannu, gan ddefnyddio ein buddsoddiadau o £1.8bn ar gyfer y rhwydwaith Swyddfeydd Post. Mae hyn yn cynnwys pecyn cymorth tair blynedd o £450m i sicrhau parhad gwasanaethau an-economaidd trwy gyfrwng Swyddfeydd Post mewn cymunedau gwledig.

Mae'r safon cyfrifeg pensiynau newydd (FRS 17) yn golygu ein bod yn adrodd yn y nodiadau i'r cyfrifon ddiffyg damcaniaethol o £4.6bn ar gronfa bensiynau'r Post Brenhinol, a oedd ag asedion ddiwedd y llynedd o £15.6bn. Mae'r agwedd gyfrifeg hon yn dibynnu ar gyflwr y farchnad stoc ar y diwrnod pan brisir asedion y gronfa, ac mae'r diffyg FRS17 yn adlewyrchu cyflwr isel y farchnad ar ddiwedd ein blwyddyn ariannol. Nid yw'r diffyg yn cynrychioli prisiad y Cynllun Pensiwn gan actiwari annibynnol, ac mae arolwg ar wahân ar hyn ar ran yr Ymddiriedolwyr yn cael ei ymgymryd ar 31 Mawrth 2003. Rhagwelwn na fyddwn bellach yn elwa ar warged pensiwn fel a wnaed am y 13 mlynedd diwethaf ac mae'n debygol y gwnawn gyfraniadau ychwanegol i'r gronfa o rhyw £100m y flwyddyn nes bydd y diffyg wedi ei dalu, yn amodol ar gytundeb gyda'r Ymddiriedolwyr i gynllun ariannu cymeradwy, i sicrhau bod cyfraniadau presennol ein pobl yn ddiogel.

Er bod y ddarpariaeth bensiwn yn gost ychwanegol, bydd gwelliannau mewn gwasanaeth i gwsmeriaid, llai o streicio a ffocws gwirioneddol ar wneud hwn yn lle gwell i weithio, yn ein rhoi yn ôl ar y llwybr cywir. Mae ffordd i fynd o hyd cyn medrwn adrodd elw, ond mae canlyniadau eleni yn gam gwirioneddol yn y cyfeiriad cywir.

Mae'r ewyllys da enfawr sydd gennym yn ein pobl, ein nwyddau a'n cwsmeriaid yn golygu bod adennill ein proffidioldeb a'n sefyllfa fel y gwasanaeth post gorau yn y byd o fewn ein golwg.

Allan Leighton

Cadeirydd

28 Mai 2003

Daliadau'r Post Brenhinol ccc

Cyd-Ddatganiad y Dirprwy Gadeirydd a'r Prif Weithredwyr

Yn y flwyddyn ddiwethaf, mae'r busnes wedi llwyddo lleihau ei golledion parhaus trwy fesurau sydd wedi cynnwys costau o fewn lefelau penodol a lleihau argostau. Ond mae llithriant ar rai o'r rhaglenni allweddol yn y Cynllun Adnewyddu a dyma lle mae angen canolbwyntio yn y flwyddyn i ddod.

Canmolodd ail arolwg Arglwydd Sawyer ar gysylltiadau diwydiannol, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2003, y Post Brenhinol a'r undebau am eu hymdrechion parhaus i stopio gweithredu diwydiannol a gwella cysylltiadau. Ers lansio 17 bwrdd partneriaeth lleol, mae gweithredu diwydiannol ar y lefel isaf am 10 mlynedd. Allan o ryw 55 miliwn diwrnod gwaith ar gael i'n pobl yn y DG, collwyd 6,686 (0.01%) i streicio y llynedd.

Roedd cynnydd cronnol o bron i 2% yn yr ansawdd hwn ar gyfer llythyrau Dosbarth Cyntaf, ac mae hyder y cwsmer yn cynyddu. Cafwyd canlyniadau da ar gyfer Parcelforce Worldwide (98%), ac roedd Swyddfa'r Post Cyf i fyny ar y llynedd, ond methwyd o hyd â chyflawni ein targed ar gyfer ansawdd gwasanaeth Dosbarth Cyntaf, gan gyflawni dim ond 3 allan o'r 15 safon gwasanaeth pennawd diwedd y flwyddyn ar gyfer post. Yn amlwg, mae lle i wella o hyd ac mae ein cynllun ansawdd gwasanaeth wedi ei gynllunio i gyflawni hynny yn y flwyddyn i ddod.

Mae'r cynnyrch dosbarthiad gwarantiedig y diwrnod canlynol, Special Delivery, wedi parhau i berfformio'n well na chynnych cystadleuol o ran gwerth am arian ac yn gyfrifol am £239m (twf sylfaenol o 10% ar y flwyddyn flaenorol) neu rhyw 4% refeniw i'r Post Brenhinol.

Roeddem eisiau symud yn genedlaethol i un dosbarthiad dyddiol yn gynnar yn 2003. Er i ni fethu cyrraedd y targed hwnnw, mae'r rhesymeg synnwyr cyffredin yn parhau i fod yn gryf - gan fod ail ddosbarthiad yn cyfrif am 20% o'r costau ond dim ond 4% nifer llythyrau, nid yw'n gynnig hyfyw. Ar ôl yr 13 ardal prawf, gwelwyd beth oedd yn gweithio a beth nad oedd, ac rydym wedi newid y cynllun yn unol â hynny. Mae adwaith cwsmeriaid i'r newidiadau a'u parodrwydd i fod yn hyblyg er mwyn gwarchod yr Ymrwymiad Gwasanaeth Cyffredinol yn y tymor hir yn galonogol.

Er gwaethaf peth cynnydd rhwystredig o araf, rydym nawr yn symud ymlaen, gyda chytundeb gwirioneddol gan ein pobl. Rydym yn disgwyl gweithredu cytundeb gyda'r undeb, sy'n cynnig cynnydd mewn cyflog sylfaenol, wythnos waith 5 diwrnod a chynlluniau bonws wedi eu symleiddio yn seiliedig ar gyflawni targedau wythnosol a gytunwyd.

Mae 93 cangen wedi dechrau cynllunio ar gyfer y newidiadau hyn a bydd mwy yn ymuno dros y flwyddyn nesaf - ond oherwydd llithriant yn y flwyddyn gyntaf, mae'r pwysau arnom i gyflwyno'r manteision rhaglen a ragwelwyd.

Rydym wedi moderneiddio camau allweddol didoli post y DG, ac roedd yn hen bryd i ni wneud hynny hefyd. I gefnogi systemau dosbarthu gwell a mwy effeithiol, rydym yn cyflwyno systemau dehongli cyfeiriadau electronig sy'n medru darllen post wedi ei gyfeirio yn wael, a fydd yn cynyddu ansawdd trwy leihau camgymeriadau didoli. Mae 63 allan o 70 canolfan bost weid eu cysylltu ac mae mwy na hanner ein post awtomatig yn mynd trwy'r systemau hyn ar hyn o bryd.

Rydym hefyd wedi cychwyn ar resymoliad cyffredinol o'n rhwydwaith cludo. Rydym yn gweithredu cynlluniau i symud post pris safonol a phost swmpus o gwmpas yn fwy effeithiol trwy greu un rhwydwaith cyfun sengl yn seiliedig ar system ranbarthol 'both a braich'. Mae nifer y canolfannau dosbarthu wedi lleihau i 13 o 16 ac mae symud gwaith canolfan ddosbarthu Dyffryn Tafwys i Fryste yn llwyddiannus wedi profi bod y system yn ymarferol ac yn gweithio. At hyn, disgwylir cwblhau both £40m yn Daventry ym mis Awst 2003.

Mae ein busnes logisteg yn parhau i gynnig gallu warws i gwsmeriaid ac mae contractau logistig dychwelyd megis y rhai gydag Amazon.com a Return Logistics Limited (yn cyflenwi Virgin, Waterstones a Safeway) yn cefnogi'r twf mewn gwerthiannau trwy gyfrwng y rhyngrwyd, archebion post a siopa o'r cartref.

Mae Parcelforce Worldwide wedi bod yn llwyddiannus o ran y lawdriniaeth mwyaf radical ledled y Grŵp, yn unol â chynlluniau a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2002. Ar ôl rhyw 10 mlynedd o golledion, mae'r busnes ar fin adennill costau yn 2004-05. Mae nifer y depos wedi eu torri o 101 i 54, mae llwybrau wedi eu had-drefnu yn llwyr ac mae dulliau newydd o weithio cyfun a system newydd o yrwyr-berchnogion wedi ei chyflwyno yn llwyddiannus. Yn arwyddocaol i'r cwsmer, mae Parcelforce Worldwide wedi adnabod a chanolbwyntio ar fusnes llwyddiannus dosbarthiadau cyflym 'gwarant amser', 'y diwrnod canlynol' a 'dau ddiwrnod', gan ildio gwasanaethau di-warant a oedd yn gwneud colled a 350 contract amhroffidiol.

Mae ein busnes parseli Ewropeaidd, General Logistics Systems (GLS) wedi parhau i dyfu o ran nifer a refeniw. O ganlyniad i'r dirywiad economaidd ledled Ewrop, mae'r gyfradd dwf wedi bod yn is na'r disgwyl. O ganlyniad, mae GLS wedi tynnhau ymhellach ei reolaeth ar gostau gweithredu ac, ynghyd â gwelliannau ymylol, wedi cynyddu ei enillion gweithredu cyn llogau a threthi. Mae'r ffocws ar integreiddiad parhaus y cwmnïau parsel unigol - adeiladu ar ymarfer ail-frandio diweddar a ddaeth â'r cwmnïau dan un brand cyffredin - a'r project TG traws-ffiniol - sy'n cynyddu'r wybodaeth sydd ar gael i gwsmeriaid ac effeithiolrwydd y ffrwd cynnydd traws-ffiniol.

Daliadau'r Post Brenhinol ccc

Cyd-Ddatganiad y Dirprwy Gadeirydd a'r Prif Weithredwyr (parhad)

Mae rhaglen ad-drefnu a moderneiddio nas gwelwyd ei bath erioed o'r blaen ar y gweill ar gyfer y rhwydwaith Swyddfeydd Post. Fel a amlinellwyd yn ein cynllun rhwydwaith, a gytunwyd gyda'r Llywodraeth yn yr Hydref y llynedd, mae nwyddau newydd a phecynnau ariannu bellach yn eu lle ac mae cyfradd canghennau'n cau heb eu cynllunio wedi arafu o 262 yn 2001-02 i 239 eleni.

Serch hynny, mae rhwydwaith y Swyddfa Bost yn parhau i wneud colled ac mae angen ailddyfeisiad cynhwysfawr er mwyn rheoli amgylchfyd sy'n newid yn gyflym.

Ym mis Mawrth 2003, lansiwyd cyfrif cerdyn y Swyddfa Bost. Defnyddir y cerdyn hwn i gyrchu taliadau budd-dal a medrwn nawr ymgymryd â thrafodaethau bancio sylfaenol ar gyfer y prif fanciau ynghyd â thrafodaethau cyfrifon cyfrediol ar gyfer rhai sefydliadau penodol. Mae cyflwyniad gwasanaethau newydd a gwell megis cyfnewid arian, yswiriant teithio a mynediad i arian trwy gyfrwng cyfrifon sylfaenol banciau'r stryd fawr oll yn sicrhau bod y rhwydwaith yn aros yn berthnasol i fusnes pob dydd.

Mae cymeradwyaeth seneddol a Chymuned Ewrop i becyn ariannu o £210m i gefnogi'r rhwydwaith trefol wedi galluogi i'n rhaglen Ailddyfeisio'r Rhwydwaith fynd ymlaen. Mae hyn yn cynnwys bwriad i gau rhyw 3,000 o ganghennau Swyddfa Post trefol dros y tair blynedd nesaf ac yn ymgorffori taliadau iawndal i isbostfeistri. Mewn ymarfer mynegodd 3,700 o isbostfeistri ddiddordeb yn y cynllun hwn. Mae'r pecyn hefyd yn cynnwys £30m ar gyfer buddsoddi mewn canghennau sydd eisiau ehangu neu wella.

Rydym yn benderfynol o gadw cangen Swyddfa'r Post mewn ardaloedd trefol o fewn milltir i 95% o'n cwsmeriaid. Bydd canghennau 'difreintiedig trefol' (2,800 i gyd yn Lloegr) hefyd yn medru gwneud cais am grant gwella o gronfa £15m, sy'n ffurfio rhan o gynllun y Llywodraeth i adfywio cymunedau tlawd. Ym mis Tachwedd 2002, derbyniodd canghennau Swyddfa'r Post yng Nghymru gyfanswm o £2.5m a chyhoeddodd Senedd yr Alban gronfa £2m ar gyfer canghennau mewn ardaloedd difreintiedig ym mis Rhagfyr 2002.

Bydd pecyn ariannu £450m y Llywodraeth dros dair blynedd yn helpu i barhau mynediad i wasanaethau dros-y-cownter yn yr ardaloedd gwledig a rhwystro cau canghennau lle gellir osgoi hynny.

Un o'r gweithgareddau allweddol dros y flwyddyn oedd ein ffocws llwyr ar ein busnesau craidd. Rydym wedi bod yn llwyddiannus yn canfod ffynhonnell allanol ar gyfer 5,000 o swyddi o'n gwasanaethau rheoli cyfleusterau, gan arbed rhyw £30m y flwyddyn dros y contract saith mlynedd, a 200 o swyddi pellach gwasanaethau iechyd, a newid 1,300 o swyddi i Capita, a fydd nawr yn casglu ffîoedd trwyddedau teledu. Bydd ein huned Systemau Busnes 1,735 yn mynd i ffynhonnell allanol o ddechrau Mehefin fel rhan o gytundeb a gytunwyd a fydd yn cyflawni arbedion o ryw £60m y flwyddyn dros 10 mlynedd y contract.

Rydym wedi symleiddio ein strwythur trefniadol yn y DG - cael gwared â haenau rheoli a gweinyddol. Ein nod yw cwtogi'r swyddi hyn 25% ac rydym ar y ffordd tuag at gyflawni hynny.

Rydym hefyd wedi newid yr enw corfforaethol i'r Post Brenhinol er mwyn canolbwyntio ar ein brandiau allweddol yn y DG: y Post Brenhinol, Parcelforce Worldwide a Swyddfa'r Post™.

Mae llawer iawn i'w wneud yn ail flwyddyn ein Cynllun Adnewyddu a bydd hyd yn oed yn fwy heriol na'r flwyddyn a aeth heibio. Mae gennym dîm arweiniol bellach i yrru newid trwy'r busnes. Dim ond y cychwyn yw'r Cynllun Adnewyddu. Mae ein ffocws ar greu busnes proffidiol a chynaliadwy ar gyfer y dyfodol yn golygu y byddwn yn cyflwyno gwasanaeth rhagorol ar gyfer ein cwsmeriaid a'n pobl.

Elmar Toime	**Adam Crozier**	**David Mills**
Dirprwy Gadeirydd Gweithredol	Prif Weithredwr	Prif Weithredwr
Daliadau'r Post Brenhinol ccc	Grŵp y Post Brenhinol ccc	Swyddfa'r Post Cyf
28 Mai 2003	28 Mai 2003	28 Mai 2003

Arolwg Ariannol

Mae Grŵp y Post Brenhinol (y Grŵp) yn cynnwys Daliadau'r Post Brenhinol ccc (y Cwmni) - ym meddiant llwyr Llywodraeth EM - a'i is-ymgymeriadau ac ymgymeriadau cysylltiedig a chyd-fentrau. Mae'r Cwmni wedi ei ymgorffori dan Ddeddf Cwmnïau (y Ddeddf), ac fe gyhoeddir y cyfrifon yn unol â'r ddeddf hon a safonau cyfrifeg perthnasol y DG.

Ar 4 Tachwedd 2002, newidiodd y Cwmni ei enw o Consignia Holdings plc i Ddaliadau'r Post Brenhinol ccc.

Mae'r cyfrifon yn delio gyda'r cyfnod 52 wythnos a ddaeth i ben ar 30 Mawrth 2003 (2002 53 wythnos).

Busnes byw
Ers yr ansicrwydd ynglŷn â busnes byw a adroddwyd yng nghyfrifon y llynedd, bu cynnydd sylweddol ar ein trafodaethau ariannu gyda'r Llywodraeth. Rydym bellach wedi cytuno cyfleusterau benthyca masnachol £1,044m, gyda'r bwriad i alluogi i'r Post Brenhinol ariannu ei hunan trwodd i sefyllfa hunan-gynhaliol o ran llif arian. Mae'r Cyfarwyddwyr, felly, nawr yn fodlon y bydd y Post Brenhinol yn parhau fel busnes byw.

Rydym wedi cytuno gyda'r Llywodraeth y bydd anghenion ariannu gweithredol cyfan Swyddfa'r Post Cyf o £0.70bn dros y pum mlynedd nesaf yn cael eu darparu allan o fuddsoddiadau asedion presennol cyfredol y Grŵp a neilltuwyd i gefnogi Cronfa'r Post. At hyn, mae cyfleusterau benthyca £1.2bn pellach i ariannu anghenion cyfalaf gweithredol rhwydwaith y Swyddfa Bost wedi ei gytuno mewn egwyddor gyda'r Llywodraeth, gyda'r telerau manwl bron wedi eu cwblhau.

Oherwydd hyn, mae'r Cyfarwyddwyr yn ystyried ei bod yn briodol paratoi datganiadau'r Grŵp ar sylfaen busnes byw.

Canlyniadau'r Grŵp
Mae colled blwyddyn lawn y Grŵp o'i weithrediadau o £197m (2002 £318m) cyn eitemau eithriadol - cyfwerth â £0.8m bob diwrnod masnachu - yn welliant arwyddocaol ar golled y llynedd o £1.2m bob diwrnod masnachol. Esbonnir y gwahaniaeth rhwng elw/(colled) gweithredol y Grŵp a'r golled o weithrediadau, y ddau cyn eitemau eithriadol, isod:

	2003 £m	2002 £m
Elw/(colled) gweithredol y Grŵp cyn eitemau eithriadol	**19**	(67)
Ychwanegu yn ôl manteision pensiwn yn deillio yn unol ag SSAP 24	**(246)**	(250)
	(227)	(317)
Cyfran o elw/(colled) mewn mentrau cysylltiedig a chyd-fentrau (gan gynnwys amhariad an-eithriadol ewyllys da	**30**	(1)
Colled o weithrediadau	**(197)**	(318)

Mae'r golled £227m, o'i ddadansoddi yn ôl rhannau busnes ar dudalen 33 y cyfrifon, yn cael ei briodoli i elw post a pharseli o £12m, colled gwasanaethau Swyddfa'r Post o £209m a cholledion busnes eraill o £30m.

Roedd y golled cyn trethi yn £611m (2202 £1,124m). Mae'r golled hon yn adlewyrchu llogau net derbyniadwy o £35m (2002 £56m) ac eitemau eithriadol o £695m (2002 £1,112m). Roedd y golled ar gyfer y flwyddyn o £559m (2002 £940m) ar ôl credyd treth net o £52m (2002 £179m) a swm bychan o log ecwiti lleiafrifol.

Roedd trosiant allanol o £8,299m (heb gyfrif £79m trosiant o gyd-fentrau) £109m yn is na'r llynedd. Fodd bynnag, roedd 2001-02 yn gyfnod cyfrifo 53 wythnos o gymharu gyda 52 yn y flwyddyn hon. Ar ôl addasu trosiant y llynedd yn ôl 52 wythnos, mae trosiant 2002-03 yn cynrychioli cynnydd o £50m (0.6%), wedi ei yrru gan dwf yn yr adran post a pharseli (£140m) wedi ei wrthbwyso gan ddirywiad ym musnes Swyddfa'r Post Cyfyngedig (£36m) a busnesau eraill (£54m).

Roedd asedion net y Grŵp ar 30 Mawrth 2003 yn £2,088m, gostyngiad i £517m o'r sefyllfa gloi y llynedd. Deilliodd y prif symudiad o werthu buddsoddiadau asedion presennol o £550m i gynnal rhwydwaith y Swyddfa Bost, i ariannu'r Rhaglen Adnewyddu a gwneud rhag-daliadau pensiwn. Fel y llynedd, cynorthwywyd sefyllfa ariannol y Grŵp gan y gwyliau pensiwn o £126m (2002 £135m). Mae'r gwyliau yn ymwneud â'r gwarged a adeiladwyd yn y cynllun pensiwn dros yr 20 mlynedd ddiwethaf oherwydd bias ecwiti uchel y gronfa yn ystod cyfnod sefydlog o ddychweliadau marchnad ar godi.

Mae'r nodyn adrannol yn nodyn 1 i gyfrifon y Grŵp yn dadansoddi'r golled weithredol yn unol ag SSAP 25 - Adrodd Adrannol. Rydym wedi nodi isod ddadansoddiad amgen sy'n cydnabod nad yw'r budd-dal pensiwn yn deillio o fasnachu presennol ac i adlewyrchu'r masnachu sylweddol rhwng unedau gweithredol a swyddogaethau cefnogi eraill (masnachu mewnol). Mae'r dadansoddiad isod hefyd yn cymryd i ystyriaeth effaith llogau mewnol a godir ar fusnesau pan ddefnyddiant adnoddau ariannu a reolir yn ganolog. Mae llif arian yn cynnwys symudiadau mewn arian ffisegol a symudiadau cyfalaf gweithredol trwy falansau rhyng-gwmni.

Arolwg Ariannol (parhad)

Llythyrau a pharseli
Mae llythyrau a pharseli yn cynnwys busnesau traddodiadol post y DG a rhyngwladol (gan gynnwys busnesau post tramor a sefydlwyd neu a brynwyd), Parcelforce, Logistics Solutions a'n busnesau parseli Ewropeaidd - GLS. Gyda'i gilydd, adroddodd y busnesau hyn gyfanswm refeniw allanol o £7,351m, cynnydd o £1m dros 2002, a cholledion o weithrediadau o £120m (2002 £241m).

Llythyrau'r DG
Cynyddodd refeniw allanol llythyrau'r DG gan £256m i £5,548m. Priodolir y cynnydd i newid £269m incwm o Parcelforce ar gyfer nwyddau Special Delivery, y parseli Ymrwymiad Gwasanaeth Cyffredinol a dychweliadau Archebion Post, a wrthbwysir yn bennaf gan golli refeniw oherwydd y 53fed wythnos, i roddi twf sylfaenol o £56m mewn nwyddau llythyrau craidd - cynrychiolir gan dwf 1.1% mewn post blychau llythyrau a chasgliadau a thwf 1.2% mewn llythyrau masnachol a phostio swmpus. Mae'r lefelau twf isel hyn yn parhau i adlewyrchu arafiad yn yr economi cenedlaethol sydd wedi cael effaith benodol ar y marchnadoedd hysbysebu a chyhoeddi.

Tyfodd cyfanswm costau gan gynnwys masnachu mewnol net gan £116m i £5,482m. Gwrthbwyswyd costau chwyddiant, y dyfarniad cyflog blynyddol a chostau unwaith-ac-am-byth rhaglenni awtomeiddio post yn bennaf gan welliannau effeithiolrwydd a rheolaeth gadarn gwariant dewisol.

Yn gyffredinol, trodd y busnes llythyrau golled o weithrediadau y llynedd, cyn eitemau eithriadol, o £74m yn elw o £66m. Mae'r canlyniad hwn yn cynnwys elw newydd ar gyfer y rhanbarth post DG o nwyddau a drosglwyddwyd yn dod i ryw £75m. Colledion ar ôl eitemau eithriadol ond cyn treth oedd £269m a mewnlif arian oedd £74m.

Post rhyngwladol
Syrthiodd incwm post rhyngwladol 9% i £687m. Roedd y dirwyiad hwn yn rhannol oherwydd effaith y 53fed wythnos (£14m) ond yn bennaf oherwydd camau a gymerwyd gn y rheolwyr i adael meysydd a oedd yn achosi colledion ac effaith disodliad electronig. Lleihaodd cyfanswm costau allanol - £343m - gan £74m - arbediad o 18% dros y flwyddyn flaenorol. Roedd yr arbedion hyn oherwydd gadael nwyddau a oedd yn gwneud colled a chostau trin is yn y DG a thramor. Gwrthbwyswyd effaith net y newidiadau gweithredol hyn gan gostau masnachu mewnol uwch, gan arwain at golled ddigyfnewid o £18m cyn eitemau eithriadol a threthi, a cholled o £44m ar ôl eitemau eithriadol ond cyn trethi. Y llif arian o weithrediadau post rhynwgladol oedd £45m, a yrrwyd gan gyfuniad o golledion ac amseriad cytundebau gyda gweinyddiaethau post eraill.

Parcelforce
Ym Mawrth 2002, cyhoeddodd y Bwrdd gynllun pellgyrhaeddol ar gyfer ei fusnes parseli yn y DG. Roedd hyn yn cynnwys cau'r rhwydwaith gweithredol a oedd yn darparu'r nwyddau Safonol (h.y. dosbarthiadau cyflym heb 'warant amser', heb fod 'y diwrnod canlynol', neu 'dau ddiwrnod'), a thynnu allan yn llwyr o'r cynnyrch (a'i farchnad ddirywiol), cyflwyniad mwy o yrwyr-berchnogion i'r fflyd casglu a dosbarthu, a therfynu rhyw 350 o gontractau cwsmer mawrion a ystyrid eu bod yn darparu elw annigonol. Hefyd, symudwyd atebolrwydd ar gyfer y cynnyrch Special Delivery, parseli Ymrwymiad Gwasanaeth Cyffredinol a dychweliadau archebion post hefyd i bost y DG. Mae'r camau a gymerwyd hyd yma wedi arwain at gau pum canolfan ddidoli, lleihad o ryw 50% o swyddi gweithredol, cau 50 depo a lleiau traffig dyddiol ar gyfartaledd o ryw 400,000 i 170,000. Canlyniad hyn oedd gostyngiad yn incwm allanol parseli'r DG o £178m i £269m (dirywiad o 38%). Ar yr un pryd, achosodd ail-strwythuro'r rhwydwaith i gostau gweithredu syrthio gan £85m i £483m (dirywiad o 15%). Yn gyffredinol, cynyddodd colledion o weithrediadau o £94m i £187m. Roedd hyn yn adlewyrchu effaith uniongyrchol tynnu incwm allan o gymharu gyda'r cyflymder arafach i yrru'r sylfaen gost i lawr wrth i ni weithio trwy'r rhaglen cau rhwydwaith, sydd fwy neu lai wedi ei chwblhau. Llif allan arian y busnes oedd £211m.

Logistics Solutions
Mae Logistics Solutions yn rheoli rhwydwaith o warysau a 1,900 cerbyd i ddarparu gwasanaeth dosbarthu ar gyfer cwsmeriaid allanol a busnesau gweithredu mewnol.

O ganlyniad i ail-strwythuro Parcelforce, dychwelodd y cyfrifoldeb am gwsmeriaid parseli folum uchel - gyda Logistics Solutions gynt - yn ôl i Parcelforce. O ganlyniad, syrthiodd incwm allanol Logistics Solutions gan £194m i £34m. Effaith ail-osod cwsmeriaid parseli folum uchel oedd cynyddu derbynion masnachu mewnol Logistics Solutions gan £207m i £332m. Syrthiodd costau gweithredu allanol y gwasanaeth cyffredinol gan £15m i £353m oherwydd nifer o fesurau effeithilrwydd lleol. Yr effaith net oedd troi colled gyffredinol y llynedd cyn eitemau eithriadol o £15m yn elw o £13m. Roedd costau eithriadol yn £46m, gan ddod â chyfanswm colledion cyn trethi i £33m. Mewnlif arian ar gyfer y busnes oedd £42m.

General Logistics Systems
Tyfodd GLS, neu ein busnes parseli Ewropeaidd, ei incwm allanol gan £186m i £786m yn ystod y flwyddyn. Gyrrwyd y cynnydd hwn gan gyfuniad o efaith blwyddyn lawn pryniannau (£90m), trosiadau arian (£71m) a thwf sylfaenol o £25m (4%). Roedd elw cyn llogau a threth yn £14m, gwelliant arwyddocaol ar golled £14m y llynedd. Yr enillion cyn llogau, treth, dadbrisiant ac amorteiddiad oedd £39m, gwelliant o £18m dros y flwyddyn flaenorol.

Swyddfa'r Post Cyfygnedig
Mae Swyddfa'r Post Cyfyngedig yn gyfrifol am 17,239 o unedau adwerthu, o'r rhain y mae 16,521 mewn meddiant annibynnol. Gwelodd eleni gyflwyniad nifer o gerrig milltir allweddol gyda'r bwriad o liniaru lefelau

Arolwg Ariannol (parhad)

uchel colledion y rhwydwaith. Ail-drafodwyd contract Horizon, a bydd yn arwain at arbedion sylweddol; hyfforddwyd 36,000 o bobl i gyflwyno'r trafodaethau bancio; sefydlwyd swyddogaeth gwerthiannau a marchnata; ymunodd 12 sefydliad ariannol gyda system mynediad bancio gyda'r system yn fyw ym mhob uned ar amser; caewyd 13 canolfan ariannol ac fe gytunwyd holl gyllid gyda'r Llywodraeth.

Aeth cyfanswm incwm i lawr gan £104m (8%) i £1,186m, gyda £50m o'r dirywiad hwn yn deillio o incwm mewnol ar gyfer gwasanaethu busnesau llythyrau a pharseli. Incwm allanol oedd £899m, dirywiad o £54m (6%). Mae hwn yn gyfuniad o dwf bychan yn ein busnes sylfaenol o £20m, a oedd yn mwy na chael ei wrthbwyso gan gyfraniad llai gan y Llywodraeth ar gyfer datblygu gallu bancio a pheilotio menter Your Guide. Lleihaodd costau cyffredinol, gan gynnwys costau masnachu mewnol o rannau eraill y Grŵp, gan £73m (5%) i £1,380m.

Daeth colledion cyn eitemau eithriadol i £194m - £31m (19%) yn uwch na'r llynedd - sy'n cynnwys buddsoddiad net o ryw £50m yn y rhaglen fancio. Y golled ar ôl eitemau eithriadol oedd £363m a'r allanlif ariannol ar gyfer y flwyddyn oedd £288m.

Mae'r system fancio gyffredinol nawr wedi mynd yn fyw gyda chyfrifon cerdyn cyntaf y Swyddfa Bost a chyfrifon Banc Sylfaenol yn cael eu hagor - mae'n rhy gynnar i ddweud faint a fydd yn mynd am y naill gynnyrch neu'r llall. Bydd y gwasanaeth hwn yn caniatau i bobl sy'n derbyn budd-daliadau - dros 15 miliwn o bobl ar hyn o bryd - dynnu arian allan mewn Swyddfeydd Post.

Mae sefyllfa ariannol anodd Swyddfa'r Post Cyfyngedig (gan gynnwys disodliad llif refeniw sylweddol yr Adran Gwaith a Phensiynau) yn parhau i gael ei thrin mewn tair ffordd. Yn gyntaf, rydym yn rhesymoli'r rhwydwaith trefol, yn ail, rydym yn gweithredu ein harolwg strategol sy'n delio gyda hyfywedd economaidd, ymrwymiadau cymdeithasol a chyfleoedd masnachol y rhwydwaith, ac yn drydydd, rydym yn lleihau ein hargostau.

Gweithgareddau eraill y Grŵp
Mae gweithgareddau eraill y Grŵp yn cynnwys rheolaeth trysorlys buddsoddiadau arian a marchnad, gwasanaethau Canolfan Grŵp a gwasanaethau cefnogi eraill i'r prif fusnesau masnachu. Roedd elw o weithrediadau ar gyfer y flwyddyn, cyn y budd-daliadau pensiwn yn £117m, £31m yn well na'r llynedd. Mae'r elw yn deillio yn bennaf o daliadau llog mewnol ar unedau gweithredu a chefnogi o £176m (2002 £214m), a wrthbwysir gan golledion net is ar weithgareddau gwasanaethau cefnogi o £59m (2002 £128m), yn deillio yn bennaf o gostau rheoli ystad a gwariant datblygu is.

Eitemau Eithriadol
Mae canlyniadau'r Grŵp yn cynnwys costau eitemau eithriadol net o £695m (2002 £1,112m), y cyfan o'r hwn sy'n deillio o gyfres o flaengareddau a gyhoeddwyd yn y Rhaglen Adnewyddu i dynnu £1.4bn o'n sylfaen costau gros blynyddol.

Gwnaed darpariaeth o £449m yn y flwyddyn ar gyfer diswyddiadau, yn cynnwys newidiadau yn nidoli a dosbarthu post o £230m, arolwg o strwythur Swyddfa'r Post Cyfyngedig o £73m ac ail-strwythuro gweithrediadau cludiant dosbarthu o £22m. Mae'r darpariaethau yn ymwneud â'n pobl yn gweithio yn uniongyrchol yn y busnesau yn gweithredu newid. At hyn, gwnaed darpariaethau o £124m ar gyfer ein pobl yn gweithio mewn swyddogaethau cefnogi a mân brojectau ail-strwythuro. Mae'r darpariaethau uchod yn cynnwys yr ychwanegiad angerheidiol i Gynllun Pensiwn y Post Brenhinol o £200m.

Gwnaed diddymiadau amhariad o £97m a darpariaethau heb fod yn gysylltiedig gyda diswyddo o £151m, o'r hwn y mae £25m yn delio gyda chostau sy'n gysylltiedig gyda newidiadau i'n rhwydwaith gludiant, a £126m mewn perthynas â chostau eiddo gwag a chostau eraill sy'n gysylltiedig gyda'r Rhaglen Adnewyddu.

Rydym wedi amharu ein buddsoddiad mewn cwmnïau cysylltiedig gan £24m, yn bennaf Spring £19m, yn adlewyrchu ein barn ar y rhagolygon economaidd o fewn y marchnadoedd perthnasol.

Mae'r cyfrifon hefyd yn cynnwys elw net ar waredu asedion sefydlog o £24m (2002 £24m) a £2m elw ar werthu rhan o un o'r is-ymgymeriadau, Romec Limited, i'm partner cyd-fenter Haden Building Management Limited.

Trethi
Mae'r cyfrifon yn cynnwys £4m credyd trethi cyfredol (2002 tâl o £3m) a chredyd trethi wedi ei ohirio o £48m (2002 £182m) ar gyfer y flwyddyn.

Mae'r credyd treth ar gyfer 2003 yn cynrychioli cyfradd dreth effeithiol o 9% ar golledion cyn trethi, o gymharu gyda chredyd o 16% ar gyfer 2002. Mae'r credyd yn deillio yn bennaf o ostyngiadau ar gostau ail-strwythuro sy'n achosi colledion sydd yn rhannol wedi eu gwrthbwyso yn erbyn atebolrwydd trethi a ohiriwyd a'u hildio i is-gwmnïau a chyd-fentrau.

Y Trysorlys
Mae'r Grŵp yn gweithredu swyddogaeth trysorlys fewnol sy'n rheoli rhyw £1,251m o fuddsoddiadau a £550m o fenthyciadau yn unol â chyfyngiadau buddsoddi a bennwyd gan y Llywodraeth ac yn gweithredu fel banciwr mewnol ar gyfer y Grŵp. Mae'r Grŵp yn ariannu ei weithredoedd yn bennaf trwy gyfrwng elw a gadwyd a benthyciadau.

Arolwg Ariannol (parhad)

Mae Trysorlys y Grŵp yn cael ei awdurdod gan Fwrdd Daliadau'r Post Brenhinol ccc ac yn cyflwyno adroddiadau monitro rheolaidd iddynt eu harolygu. Dim ond awdurdod i ymgymryd â thrafodaethau ariannol yn delio gyda rheolaeth peryglon busnes sylfaenol sydd gan swyddogaeth y trysorlys. Mae'r holl strategaethau yn wrth-risg ac mae polisi'r trysorlys wedi aros yn ddigyfnewid yn ystod y cyfnod.

Yn ystod trydydd chwarter y flwyddyn ariannol hon, gwnaeth y Grŵp drefniadau ariannu gyda'r DTI i sicrhau pecyn ar gyfer ail-strwythuro Busnes y Post. Mae'r Cytundeb Credyd Post Brenhinol yn darparu ar gyfer mwyafswm o £1,044m, yn cynnwys *tranches* sefydlog a symudol i'w had-dalu rhwng Mawrth 2007 (£200m) a Mawrth 2009 (£844m).

Llofnodwyd cytundeb fframwaith rhwng Swyddfa'r Post Cyfyngedig, y Post Brenhinol a'r Ysgrifennydd Gwladol yn delio gyda gwargedau'r Post yn y gorffennol a chyllid ar gyfer ail-strwythuro Busnes y Post. Dan y cytundeb fframwaith bydd y Post Brenhinol yn darparu cyllid i Swyddfa'r Post Cyfyngedig allan o gronfeydd cronnol penodol. Mae cyllid ar ffurf benthyciadau gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer Diwydiant a Masnach i'w ddarparu ar gyfer eitemau arian a 'bron yn arian' yn rhwydwaith Swyddfa'r Post Cyfyngedig, ar y ffordd ac mewn canolfannau ariannol, gan gynnwys gofynion ariannu ar ei anterth hyd at uchafswm o £1,200m. Bwriad y cyllid hwn yw disodli'r rhag-gyllid a ddarparwyd gan yr Adran Gwaith a Phenisynau ar gyfer taliadau budd-dal cyn cyflwyno Trosglwydiad Credyd Awtomatig ar gyfer taliadau hawlwyr. Er bod y manylion eto i'w cytuno, tybir y bydd y cyllid yn cynnwys cyfleusterau craidd o fondiau ynghyd â chyfleusterau benthyca hyblyg.

Prif risgiau ariannol y Grŵp yw risgiau cyfradd log ac arian tramor. Mae'r Grŵp yn lliniaru'r risg cyfradd llog trwy gyfrwng agwedd bortffolio tuag at fuddsoddiad. Mae portffolios byrdymor yn cael eu gyrru gan ofynion hylifedd ac mae portffolios tymor canol yn cael eu gyrru gan benderfyniadau buddsoddiad. Prif offerynnau ariannol sterling y Grŵp yw adneuon, rhoddion a benthyciadau byr- a hir-dymor.

Mae balansau arian tramor a ddelir i weithredu'r Bureau de Change yn cael eu sicrhau gan Drysorlys y Grŵp gan ddefnyddio cyfuniad o gontractau 'ymlaen' a 'sbot'. Lle'n bosibl, gweithredir system o netio datguddiadau yn fewnol.

Mae'r Grŵp yn agored i risgiau trafodaethau ariannol o'i ymrwymiad i dalu gweinyddiaethau post tramor ar gyfer dosbarthu post sy'n dod o'r DG. Mae'r datguddiad hwn yn cael ei ddangos mewn Hawliau Tyniad Arbennig (SDR) - basged arian cyfred o ddoleri'r UDA, ewros, Yen Siapaneiaidd a Sterling. Mae'r perygl yn cael ei leihau trwy ddefnyddio contractau arian tramor 'ymlaen', opsiynau ac adneuon arian cyfred tramor. Mae gan y Grŵp bolisi o gyfateb derbynion a thaliadau ar gyfer arian cyfred unigol. Mae mwyafswm o 80% o'r datguddiad i dalu gweinyddiaeth dramor yn cael ei sicrhau. Mae'r rhaglen hon yn defnyddio contractau ymlaen, ac adneuon arian cyfred tramor. Mae'r Trysorlys yn gweithredu rhaglen dreigl 18 mis, sy'n cael ei harolygu yn chwarterol.

Mae holl atebolrwydd arwyddocaol arall yn sicr pan ddônt yn gytundebol.

Mae'r Grŵp yn agored i risg trosi arian cyfred ar asedion net ar holl is-gwmnïau tramor.

Amcan strategaeth rheoli risg tanwydd y Grŵp yw lleihau ansicrwydd a greir gan symudiadau yn y farchnad olew. Mae'r strategaeth yn gweithredu o fewn y paramedrau a osodir gan y Bwrdd. Mae'r rhaglen prynu tanwydd yn caniatau ar gyfer defnyddio nwyddau deilliadol dros-y-cownter i reoli'r nwydd ac elfennau cyfnewid tramor y datguddiad.

Rheolir risg rhyng-barti trwy gyfyngu datguddiad cyfanrifol i unrhyw ryng-barti unigol. Mae'r datguddiadau hyn yn cael eu harolygu yn rheolaidd a'u haddasu fel y bo'n briodol.

Dyled
Dyled gyfansawdd ar 30 Mawrth 2003 oedd £637m, gostyngiad blwyddyn ar flwyddyn o £68m, sy'n bennaf yn adlewyrchu ad-dalu benthyciad yn gynnar.

Llogau derbyniadwy
Llog derbyniadau net y Grŵp oedd £35m. Roedd hwn yn cynnwys £69m o logau a dderbyniwyd ar fuddsoddiadau cyfartalog o £1.6bn ar gyfradd o 4.3%, llai £34m llogau taladwy ar fenthyciadau cyfartalog o £580m ar gyfradd o 5.8%.

Pensiynau
Mae canlyniad cyffredinol y Grŵp yn cynnwys £264m (2002 £250m) budd-daliadau yn deillio yn unol ag SSAP 24, a gellir dadansoddi'r swm hwn yn dair prif elfen. Mae'r taliadau cyfrifeg yn seiliedig ar dybiaethau sylfaen 'amcangyfrif gorau', sy'n adlewyrchu'r gwahaniaeth rhwng perfformiad 'profiadol' dros y dybiaeth actiwarial ddoeth a dybir yn y gyfradd ariannu. Mae hyn wedi arwain at gostau cyfrifo rheolaidd is yn dod i £48m o'r budd-dal. Mae'r gwarged yng Nghynllun Pensiwn y Post Brenhinol yn caniatau ar gyfer gostyngiad pellach mewn costau - a werthusir gan actiwari'r Cynllun yn defnyddio eu tybiaethau 'amcangyfrif gorau' - yn darparu budd-daliadau o £153m, gyda'r llog ar y dyledwr pensiwn hirdymor o £45m yn llunio elfen olaf y budd-dal.

Mae'r safon gyfrifeg newydd FRS 17 - Budd-daliadau Ymddeol, yn cyflwyno newidiadau radical i gyfrifo ar gyfer pensiynau a budd-daliadau tebyg. Mae'r Post Brenhinol yn cydymffurfio gyda'r trefniadau trosiannol fel a addaswyd gan y Bwrdd Safonau Cyfrifeg ym mis Tachwedd 2002. Datgelir y fantolen a'r agweddau elw a

Arolwg Ariannol (parhad)

cholled yn nodyn 21 i gyfrifon y Grŵp. Bydd y datgeliadau hyn yn parhau am y ddwy flynedd nesaf, gyda 2005-06 y flwyddyn gyntaf pan fydd holl gostau pensiwn a gwybodaeth gysylltiedig yn cael eu hadrodd yn unol gyda FRS 17.

Mae gofynion FRS 17 yn golygu ein bod yn adrodd, o fewn y nodiadau i'r cyfrifon, ddiffyg damcaniaethol o £4.6bn ar gronfa'r Cynllun Pensiwn Post Brenhinol. Mae'r diffyg hwn yn cynrychioli'r gwahaniaeth rhwng gwerth asedion y Cynllun ar y farchnad a gwerth a aseswyd rhwymedigaethau'r Cynllun ar ddyddiad y fantolen sef 30 Mawrth 2003. Mae diffyg FRS 17 o ryw 28% o asedion y gronfa yn faint tebyg i'r hyn y mae cynlluniau pensiwn mawrion eraill yn ei ddioddef. Fodd bynnag, gan fod Cynllun Pensiwn y Post Brenhinol yn un o'r 5ed mwyaf yn y DG, mae'r gwerth ariannol yn ymddangos yn anghymesur o fawr. Mae gwerth asedion yn adlewyrchu prisiadau isel y farchnad stoc ar ddiwedd ein blwyddyn ariannol, yn syrthio i £12.1bn (0 £15.6bn ym Mawrth 2002), yn adlewyrchu gostyngiadau yn y FTSE 100 o 5272 i 3708 dros yr un cyfnod. Ar 5272, adroddodd cyfrifon y llynedd warged FRS 17 o £272m. Asesir atebolrwydd gan ddefnyddio cyfraddau bond AA, a chan fo'r cyfraddau hyn hefyd wedi syrthio, mae gwerth presennol y rhwymedigaeth wedi cynyddu i £16.7bn (£15.3bn yn 2002).

Mae'r asesiad FRS 17 hwn o'n Cynllun Pensiwn yn cynhyrchu cipolwg damcaniaethol o'i gyllid ar un pwynt ym mywyd cronfa bensiwn (50 mlynedd a thu hwnt, yn nodweddiadol). Trwy ddefnyddio agwedd cipolwg, mae prisiad yr asedion yn sensitif iawn i effeithiau amseriad. Byddai newidiadau byrdymor diweddar ym mhrisiadau'r farchnad stoc wedi newid y sefyllfa hon gan nifer o £100m os edrychir arni ddau neu dri diwrnod ar wahân. I ddangos y pwynt hwn ymhellach, byddai'r adferiad yn y prisiadau ecwiti FTSE rhwng dyddiad y fantolen a 28 Ebrill 2003 wedi lleihau'r diffyg a ddatganwyd gan fwy na £600m. Mae felly yn bwysig gwahanu'r cipolwg FRS 17 hwn o brisiad hirdymor y Cynllun Pensiwn gan actiwari annibynnol dan reolau'r Cynllujn, ac mae arolwg ar wahân o hyn ar ran yr Ymddiriedolwyr yn cael ei wneud ar 31 Mawrth 2003. Er bod canlyniad gwaith yr actiwari yn debygol o gynhyrchu diffyg a ddatgelir sy'n sylweddol is pan fo'r canlyniadau ar gael yn yr hydref, nid ydym yn hunan-fodlon. Bydd prisiadau marchnad stoc cyson is yn anochel yn golygu nad ydym bellach yn rhagweld manteision gwarged pensiwn a fwynhawyd dros y 13 mlynedd diwethaf. Rydym hefyd wedi caniatau yn ein cynlluniau strategol ar gyfer taliadau pensiwn ychwanegol nes bydd y diffyg wedi ei glirio. Mae hyn yn debygol o achosi newidiadau i'n costau pensiwn yn 2003-04, lleihau'r gostyngiad oherwydd manteision gwarged (a ddangosir fel £153m yn nodyn 21 i gyfrifon y Grŵp) a gofyn am daliadau diffyg blynyddol o ryw £100m nes bydd y diffyg wedi ei glirio. Mae'r swm hwn yn amodol ar gytundeb yr Ymddiriedolwyr ar gynllun ariannu cymeradwy.

Rheoli
Crewyd y Comisiwn Gwasanaethau Post (Postcomm) fel Rheolydd Annibynnol ar gyfer diwydiant post y DG yn 2000. O ganlyniad, derbyniodd y Post Brenhinol ei drwydded gyntaf, a oedd yn gofyn iddo ddarparu gwasanaeth post cyffredinol am brisiau fforddiadwy. Ar hyn o bryd, mae cwmnïau eraill hefyd wedi derbyn trwyddedau.

Yn ystod y flwyddyn, derbyniodd y Post Brenhinol gynigion Postcomm ar gyfer ail reolaeth prisiau dros gyfnod tair blynedd yn dechrau ar 1 Ebrill 2003. Mae hyn yn caniatáu i'r Post Brenhinol gynyddu ei brisiau gan ryw 3% ar unwaith, ac yna agwedd RPI-1% yn yr ail a'r drydedd flwyddyn. Er bod y Post Brenhinol wedi derbyn y cynigion hyn yn y pen draw, mae wedi bod yn feirniadol iawn o'r broses, a gymerodd bron i flwyddyn i'w chwblhau.

Yn ddiweddar iawn, mae'r Post Brenhinol wedi derbyn canlyniadau penderfyniad Postcomm ar fynediad, ac mae'n credu y gallai niweidio ffabrig y busnes yn arwyddocaol, a'i allu i fedru darparu'r gwasanaeth cyffredinol. Nid yw'r Post Brenhinol yn erbyn mynediad cyn belled â nad yw'r pris a bennir gan Postcomm yn tanseilio'r tariff unffurf ac yn caniatáu iddo wneud adenilliad masnachol. Fodd bynnag, gallai cynigion Postcomm i gyflwyno cystadleuaeth, gan gynnwys mynediad i'n rhwydwaith, leihau refeniw gan fwy na £1bn yn y pen draw, ac mae'r Grŵp yn parhau i amddiffyn y sefyllfa hon gyda Postcomm.

Mae Postcomm wedi cyhoeddi ei raglen waith ddrafft ar gyfer 2003, sy'n cynnwys gwaith ar strwythur costau'r Post Brenhinol, cyfrifon rheoleiddiol ac, yn sylfaenol, diffiniad a datblygiad y gwasanaeth cyffredinol.

Buddsoddiad project mawr
Rydym yn parhau i foderneiddio ein hisadeiledd. Yn ystod y flwyddyn, buddsoddodd y Grŵp £297m (o'r hwn yr oedd £104m yn wariant cyfalaf) trwy ein rhaglenni strategol allweddol. Roedd hyn yn cynnwys £133m i uwchraddio'r isadeiledd a gwasanaethau llythyrau a pharseli, £87m i ddatblygu'r gallu Bancio Cyffredinol, £35m i ddarparu amgylchedd TG ansawdd uchel menter-eang a £42m ar amrywiol flaengareddau allweddol eraill.

Rhagolygon i'r dyfodol
Roedd y perfformiad ar gyfer 2002-03 sef colled o weithrediadau o £197m yn arwyddocaol well na'n targed ac yn ein cadw ar y llwybr i gyflawni ein hamcan Cynllun Adnewyddu ar gyfer 2004-05.

Mae cynnydd parhaus trwy 2003-04 a 3004-05 yn dibynnu ar ddefnyddio manteision y rhaglenni strategol yr ydym wedi cychwyn arnynt. Felly, mae cyflwyno modelau busnes newydd a phatrymau gwasanaeth llythyrau a pharseli yn y DG, cyfalafu ar gyfleusterau post rhyngwladol newydd yn Langley gyda'r dechnoleg ddiweddaraf, cyfleoedd busnes newydd ar gyfer y rhwydwaith Swyddfeydd Post, cau Swyddfeydd Post trefol a chanfod ffynhonnell allanol lwyddiannus ar gyfer gweithgareddau heb fod yn rhai craidd, yn parhau i fod yn allweddol wrth yrru'r busnes yn ôl i broffidioldeb a llif arian positif. Ar yr un pryd, rhaid i ni liniaru canlyniadau ariannol oedi yn y cynnydd tariff postio, costau uwch Yswiriant Gwladol a chynnydd yn ein cyfraniadau pensiwn.

Arolwg Ariannol (parhad)

Rydym yn bwriadu cynnal buddsoddiad rhesymol yn ein hisadeiledd trwy gyfrwng rhaglen wariant cyfalaf £253m y flwyddyn nesaf.

Bydd symud i un dosbarthiad ar amser cyson 6 diwrnod yr wythnos gyda mesurau effeithiolrwydd eraill ar draws y Grŵp yn arwain at 17,000 swydd arall yn mynd dros y tair blynedd nesaf. (Mae hyn yn ychwanegol at y 13,000 a ddatgelwyd yng nghyfrifon y llynedd ond yn unol â'n cyhoeddiad gwreiddiol o 30,000).

Mae'r Bwrdd wedi ei galonogi gyda chanlyniadau eleni ac yn parhau yn ymroddedig i ddwy flynedd arall y Rhaglen Adnewyddu. Rydym yn disgwyl parhau i leihau colledion masnachu a symud yn ôl i elw y flwyddyn nesaf.

Marisa Cassoni

Cyfarwyddwr Cyllid y Grŵp

29 Mai 2003

Daliadau'r Post Brenhinol ccc

Bwrdd Daliadau'r Post Brenhinol ccc

Cyfarwyddwyr An-Weithredol

ALLAN LEIGHTON (CADEIRYDD)
Ymunodd Allan (50) gyda'r gyfundrefn yn Ebrill 2001 a daeth yn Gadeirydd y Cwmni ym Mawrth 2002. Cychwynodd ei yrfa gyda Mars Confectionery a symud i Pedigree Petfoods fel cyfarwyddwr gwerthu. Ym 1992 daeth yn gyfarwyddwr marchnata grŵp gydag Asda Stores Limited a phrif weithredwr ym 1996, gan ddod yn llywydd a CEO Wal-Mart Europe pan brynodd Wal-Mart Asda ym 1999. Gadawodd yn 2000 ac mae hyn o bryd yn gadeirydd Bhs Limited, Wilson Connolly plc, Cannons Group Limited a lastminute.com, cyfarwyddwr an-weithedol Dyson Limited, BskyB a George Weston Limited, a dirprwy gadeirydd Leeds United plc.

DAVID FISH
Ymunodd David (54) â'r Bwrdd ar 1 Ionawr 2003. Roedd yn aelod o Fwrdd Gweithredol Mars Inc o 1994 i 2001, ac yn gyd-lywydd Masterfoods Europe. Mae hefyd wedi bod yn llwydd Snackfoods Europe ac wedi dal swyddi is-lywydd Ewropeaidd mewn marchnata a phersonél. Mae hefyd yn gyfarwyddwr an-weithredol Christian Salvesen. Mae David yn gadeirydd y Pwyllgor Taliadau ac yn aelod o'r Pwyllgor Enwebu.

RICHARD HANDOVER
Richard yw Prif Weithredwr grŵp WH Smith plc. Mae hefyd yn gadeirydd Arolygwyr Addysg Oedolion ac Arweinyddiaeth Addysg Busnes yn y Gymuned ac yn gyfarwyddwr am-weithredol Cymdeithas Adeiladu Nationwide. Penodwyd Richard i'r Bwrdd ar 1 Ionawr 2003. Mae'n gadeirydd y Pwyllgor Enwebu ac aelod o'r Pwyllgor Taliadau.

MIKE HODGKINSON
Mae Mike (59) wedi bod yn brif weithredwr BAA ers 1999, ac mae'n ymddeol ym mis Mehefin 2003. Mae hefyd yn aelod o'r bwrdd a chadeirydd Pwyllgor Cyllid Cludiant Llundain ac yn gyfarwyddwr an-weithredol FKI plc. Penodwyd Mike i'r Bwrdd ar 1 Ionawr 2003. Mae'n uwch gyfarwyddwr annibynnol ac yn aelod o'r Pwyllgor Taliadau. O 1 Mai 2003 mae hefyd yn gadeirydd Swyddfa'r Post Cyfyngedig.

JOHN NEILL CBE
Mae John (55) wedi bod y brif weithredwr a grŵp a dirprwy gadeirydd Grŵp cwmnïau Unipart ers 1987. Mae'n gyfarwyddwr Llys Banc Lloegr ac yn gyfarwyddwr an-weithredol Charter plc. Mae hefyd yn is-lywydd Cymdeithas Gwneuthurwyr a Masnachwyr Cerbydau, ac yn gyfarwyddwr Fforwm SMMT. Penodwyd John i'r Bwrdd ar 1 Ionawr 2003 ac mae'n aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Risg.

ROSEMARY THORNE
Mae Rosemary (51) yn gyfarwyddwr cyllid grŵp Bradford & Bingley plc. Ymunodd gyda'r Bwrdd ym mis Hydref 1998 ac mae'n gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg ac yn aelod o'r Pwyllgor Taliadau. Mae'n aelod o'r Cyngor Adroddiadau Ariannol, Panel Arolygu Adroddiadau Ariannol a phrif bwyllgorau a phwyllgorau technegol The Hundred Group.

ROBERT WIGLEY
Ymunodd Bob (42) gyda'r Bwrdd ar 1 Ebrill 2003 ac mae'n aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Risg. Mae'n Gadeirydd Busnes Bancio Buddsoddiad Ewropeaidd Merrill Lynch, ac yn ymddiriedolwr elusen symudedd plant, Whizz-Kidz.

Cyfarwyddwyr Gweithredol

ELMAR TOIME (DIRPRWY GADEIRYDD GWEITHREDOL)
Ymunodd Elmar gyda'r Cwmni ar 1 Mawrth 2003, ar ôl bod yn Brif Weithredwr New Zealand Post ers 1993. Cyn hynny, roedd ganddo uwch swyddi gyda New Zealand Post mewn cynllunio busnes, marchnata a gweithgareddau adwerthu. Yn 2002 sefydlodd Kiwibank, banc adwerthu gwasanaeth llawn newydd, fel is-gwmni New Zealand Post. Mae Elmar yn parhau i fod yn gyfarwyddwr an-weithredol Sky City Entertainment Group yn Seland Newydd. Mae hefyd yn aelod o Fwrdd Swyddfa'r Post Cyfyngedig.

MARISA CASSONI (CYFARWYDDWR CYLLID Y GRŴP)
Ymunodd Marisa (51) gyda'r gyfundrefn ym mis Chwefror 2001 o Britannic Assurance plc, lle'r oedd yn gyfarwyddwr cyllid y grŵp o 1998. Cyn hynny, roedd yn gyfarwyddwr cyllid Grŵp Rhanbarth DG y Prudential o 1994. Daeth yn gyfarwyddwr an-weithredol Severn Trent plc ym Medi 2001.

JERRY COPE (RHEOLWR-GYFARWYDDWR Y DG, POST BRENHINOL)
Ymunodd Jerry (51) ym 1973, ac mae wedi bod mewn uwch swyddi mewn cysylltiadau personél a chysylltiadau diwydiannol, rheolaeth atebol a chynllunio strategol a masnachol. Fe'i penodwyd i'r Bwrdd ym 1996 fel rheolwr-gyfarwyddwr grŵp Strategaeth a Datblygu Busnes. Daeth yn rheolwr-gyfarwyddwr grŵp y Post Brenhinol ymMedi 2001. Mae'n gyfarwyddwr a enwebwyd gan y cyfranddalwyr ar gyfer Camelot ac yn gadeirydd llywodraethwyr Prifysgol Kingston.

ADAM CROZIER (PRIF WEITHREDWR GRŴP Y POST BRENHINOL CCC)
Ymunodd Adam (39) gyda'r cwmni ar 1 Chwefror 2003, ar ôl bod yn brif weithredwr y Gymdeithas Pêl Droed ers 2000. Cyn hynny, mae wedi bod mewn nifer o uwch swyddi gyda Saatchi & Saatchi Advertising, gan gynnwys cyd-brif weithredwr ers 1995.

Bwrdd Daliadau'r Post Brenhinol ccc (parhad)

TONY McCARTHY (CYFARWYDDWR GRŴP POBL A DATBLYGU'R GYFUNDREFN)
Ymunodd Tony (47) gyda'r cwmni ar 6 Ionawr 2003, ar ôl bod yn gyfarwyddwr adnoddau dynol BAE Systems, lle'r oedd wedi gweithio mewn nifer o swyddi AD ers 1978.

DAVID MILLS (PRIF WEITHREDWR SWYDDFA'R POST CYFYNGEDIG)
Ymunodd David (59) gyda'r gyfundrefn fel cyfarwyddwr gweithredol a phrif weithredwr Swyddfa'r Post Cyfyngedig ar 15 Ebrill 2002. Cychwynnodd ei yrfa gyda Banc y Midland (HSBC Bank plc bellach) ym 1962, ac ym mis Rhagfyr 1999 fe'i penodwyd yn rheolwr cyffredinol, Bancio Personol a chadeirydd First Direct. Mae David wedi dal nifer o swyddi allanol uwch a chyfarwyddiaethau gan gynnwys cadeirydd APACS Cash Services Group a Mondex International Limited, cyfarwyddwr British Interactive Broadcasting Limited a Personal Investment Authority Limited.

Yn ystod y flwyddyn, gadawodd y Cyfarwyddwyr canlynol y Cwmni:

Roedd John Roberts CBE yn Gyfarwyddwr Gweithredol tan 31 Rhagfyr 2002
Roedd John Lloyd yn Gyfarwyddwr An-Weithredol tan 25 Mawrth 2003
Roedd Miles Templeman yn Gyfarwyddwr An-Weithredol tan 25 Mawrth 2003

Daliadau'r Post Brenhinol ccc

Adroddiad y Cyfarwyddwyr

Mae'r Cyfarwyddwyr yn cyflwyno cyfrifon y Grŵp ar gyfer Daliadau'r Post Brenhinol ccc (y Cwmni). Mae'r cyfrifon hyn yn delio gyda'r 52 wythnos hyd at 30 Mawrth 2003 (2002 53 wythnos).

Prif Weithgareddau
Mae'r Grŵp yn parhau i ddarparu gwasanaeth dosbarthu cenedlaethol a rhyngwladol, yn bennaf llythyrau a pharseli. Mae'r Grŵp hefyd yn darparu mynediad i amrediad eang o wasanaethau ariannol ac adwerthu trwy ei rwydwaith o ganghennau Swyddfa'r Post ledled y DG.

Newid Enw
Ar 4 Tachwedd 2002, newidiodd y Cwmni ei enw o Consignia Holdings plc i Ddaliadau'r Post Brenhinol ccc.

Arolwg o'r busnes a datblygaidau i'r dyfodol
Roedd y golled ar weithgareddau arferol cyn trethi yn £661m (2002 £1,124m). Ar ôl trethi a llogau lleiafrifol, y golled oedd £559m (2002 £940m). Nid yw'r Cyfarwyddwyr yn argymell difidend (2002 dim difidend).

Cadarnhaodd y Llywodraeth ym mis Gorffennaf 2002 y dylid nawr ystyried yr arian a neilltuwyd ar gyfer talu difidendau yn y gorffennol fel rhan o wargedau blaenorol. Mae gwargedau blaenorol y Grŵp i ffurfio rhan o'r swm a drosglwyddir i Gronfa Wrth Gefn y Post yn unol â gorchymyn adran 72 a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer Diwydiant a Masnach.

Cyfraniadau gwleidyddol ac elusennol
Yn ystod y flwyddyn, gwnaeth y Grŵp gyfraniadau elusennol o £0.3m (2002 £0.4m). Ni wnaed unrhyw gyfraniadau gwleidyddol.

Polisi talu cyflenwyr
Polisi'r Cwmni a'i brif is-gwmnïau gweithredol yw defnyddio eu pwer prynu yn deg. Cytunir telerau talu ymlaen llaw ar gyfer pob prif gontract. Ar gyfer trafodaethau gwerth is, mae telerau talu safonol yn berthnasol. Y polisi yw talu o fewn 45 diwrnod o dderbyn anfoneb dilys. Mae'r Cwmni a'i brif is-gwmnïau gweithredu yn y DG wedi ceisio cydymffurfio gyda Chôd Ymarfer Taliadau Gwell yr Adran Diwydiant a Masnach. Mae copïau o hwn ar gael gan y DTI. Roedd y côd hwn yn disodli cod taliadau prydlon y CBI. Gan fo'r Cwmni yn gwmni an-weithredol, sero yw dyddiau credydwyr. Mae dyddiau credydwyr yr is-gwmnïau gweithredu i'w gweld yn eu cyfrifon.

Tir ac adeiladau
Ym marn y Cyfarwyddwr, mae gwerth cyfanrifol tir ac adeiladau'r Grŵp ar y farchnad yn fwy na'r gwerth net ar y llyfrau, yn seiliedig ar bolisi cyfrifo costau hanesyddol, o £1,012m gan ffin sylweddol.

Digwyddiadau ar ôl paratoi mantolen
Mae manylion digwyddiadau ar ôl paratoi'r fantolen wedi eu cynnwys yn nodyn 25 i'r cyfrifon.

Cyfarwyddwyr a'u buddiannau
Nodir Cyfarwyddwyr y Cwmni a manylion newidiadau yn ystod y flwyddyn ar dudalennau 11 a 12. Penodir y Cadeirydd gan yr Ysgrifennydd Gwladol, mae'r holl Gyfarwyddwyr eraill yn cael eu penodi gan y Cwmni gyda chaniatâd yr Ysgrifennydd Gwladol.

Llywodraeth EM yw unig gyfranddaliwr y Cwmni ac yn unol â hynny, nid oes gan y Cyfarwyddwyr unrhyw fuddiannau yng nghyfrandaliadau'r Cwmni.

Pobl
Mae Grŵp y Post Brenhinol yn cyflogi mwy na 200,000 o bobl, gan ei wneud yn un o'r cyflogwyr mwyaf yn y DG. Mae mwyafrif llethol ein pobl yn darparu gwasanaethau yn uniongyrchol i'r cwsmeriaid - o gasglu a dosbarthu llythyrau a pharseli i ddarparu gwasanaethau trwy'r rhwydwaith o Swyddfeydd Post.

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae Grŵp y Post Brenhinol wedi dioddef cysylltiadau trwblus masnachol, cysylltiadau gweithwyr ac amgylchfyd cysylltiadau diwydiannol, sydd wedi arwain at lefelau moral, ymddiriedaeth a chyfranogiad isel. Fodd bynnag, mae arolygon barn gyda'n pobl yn dangos ymrwymiad sylfaenol cryf i'r busnes a'i lwyddiant yn y tymor hir, sy'n rhoi sylfaen cryf i adeiladu arno.

Yr amcan yw adnewyddu'r Grŵp trwy gyfrwng newid trawsnewidiol yn y ffordd y mae ein pobl yn cael eu cyflogi ac yn chwarae rhan yn y busnes, ac yn cael eu hyfforddi i fodloni amcanion y busnes. Y nod yw gwneud Grŵp y Post Brenhinol yn 'lle gwych i weithio', a fydd yn gyrru gwasanaeth gwell i'n cwsmeriaid ac yn arwain at fwy o lwyddiant masnachol. Er mwyn cyflawni hyn, bydd y ffocws ar wella ansawdd arweinyddiaeth o fewn y gyfundrefn, proffesiynoli rôl allweddol a chael mwy o gyfranogiad gan ein pobl o ran cymryd penderfyniadau a dylanwadu ar y busnes. Yn sylfaen i hyn oll mae angen am urddas yn y gwaith lle mae pawb yn teimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi, yn cael ei drin yn deg ac yn gyfartal, gyda phawb yn chwarae rhan wrth helpu'r busnes i gyflawni ei amcanion.

Dros y flwyddyn a aeth heibio, rydym wedi dechrau gosod y sylfeini ar gyfer y newid hwn. Cynhelir sesiynau wyneb-yn-wyneb wythnosol rhwng grwpiau o'n pobl a'u harweinwyr timau er mwyn trafod sut gall y tîm ddod yn fwy effeithiol wrth fodloni ei amcanion a sut y gall wella'r amgylchfyd gwaith - gyda chefnogaeth cyllidebau lleol

y mae'r timau yn eu rheoli. Mae'r arolygon gyda'n pobl wedi eu hailwampio i sicrhau bod materion lleol a chenedlaethol yn cael eu hadnabod a'u trafod o fewn y timau, a bod yr holl bynciau a godir yn cael cynlluniau gweithredu clir i ddelio gyda hwy. Mae bwlio ac aflonyddiad yn y gweithle yn cael ei drin gyda'r amcan o gael gwared yn llwyr â'r ymddygiad annerbyniol hwn, trwy ddarparu llinell gymorth gyfrinachol ac archwilwyr annibynnol a fydd yn delio gyda hyn. Hefyd bu llwyddiant arwyddocaol o ran lleihau streiciau dros y 12 mis diwethaf ar ôl yr arolwg gan Arglwydd Sawyer a'i dîm. Mae cynnydd sylweddol wedi ei wneud yn hyn o beth ac mae'r rheolwyr yn parhau i weithio gyda'r undebau ac Arglwydd Sawyer i sicrhau adeiladu ar y cynnydd hwn. Mae'r Bwrdd yn aros yn gwbl ymroddedig i weithredu'r argymhellion a wnaed gan y tîm.

Polisi'r Grŵp yw rhoi ystyriaeth lawn i geisiadau am waith gan bobl anabl. Mae ein pobl sy'n mynd yn anabl tra'n gweithio i ni yn cael cefnogaeth lawn trwy ddarparu hyfforddiant ac offer arbenigol er mwyn eu helpu i aros mewn swydd lle mae hynny'n ymarferol. Mae'r Grŵp yn darparu hyfforddiant, datblygiad gyrfa a dyrchafiad i bobl anabl ble bynnag y bo'n briodol.

Cynhelir polisi Cyfle Cyfartal o ran pob agwedd gan gynnwys anabledd, oedran, crefydd, lliw, rhyw, cenedlaetholdeb, tarddiad ethnig, tueddiadau rhywiol, hil, cred a statws priodasol.

Busnes byw
Ar ôl ystyried rhagolygon llif arian ar gyfer y Grŵp, mae'r Cyfarwyddwyr yn ystyried ei bod yn briodol paratoi datganiadau ariannol ar sail busnes byw.

Archwilwyr
Bydd penderfyniad i ail-benodi Ernst & Young LLP fel archwilwyr yn cael ei gyflwyno i'r Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol.

Trwy orchymyn y Bwrdd

Jonathan Evans

Ysgrifennydd

Llundain

28 Mai 2003

Daliadau'r Post Brenhinol ccc

Rheolaeth Gorfforaethol

Datganiad gan y Cyfarwyddwyr ar gydymffurfio gyda'r Cod Cyfun ar Reolaeth Gorfforaethol
Mae'r Grŵp yn ymroddedig i safonau uchel rheolaeth gorfforaethol. Mae'r datganiad hwn yn disgrifio sut y mae'r Grŵp yn defnyddio egwyddorion rheolaeth gorfforaethol ac yn cydymffurfio gyda'r cod Cyfun (y Cod).

Mae'r Grŵp wedi cyfymffurfio'n llawn gyda darpariaethau'r Cod trwy gydol y flwyddyn hyd at ddyddiad cymeradwyo'r cyfrifon hyn, cyn belled â'u bod yn briodol i gwmni cyhoeddus gydag un cyfranddaliwr. Yr unig eithriad oedd na phenodwyd Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol tan 4 Mawrth 2003. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd yn cymeradwyo taliadau Cyfarwyddwyr gweithredol ac an-weithredol, gan gynnwys holl gynlluniau cymhelliad.

Y Bwrdd a'i bwyllgorau
Nodir manylion y Bwrdd a'r pwyllgorau isod.

Y Bwrdd
Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am bennu amcanion a strategaeth y Grŵp ac am fonitro perfformiad. Mae'r Bwrdd fel rheol yn cyfarfod bob mis, ac mae wedi diffinio'r materion hynny a neilltuir ar gyfer ei ystyriaeth. Mae'r Bwrdd ar hyn o bryd yn cynnwys Cadeirydd an-weithredol, chwe Cyfarwyddwr gweithredol a chwe Cyfarwyddwr an-weithredol (gan gynnwys Bob Wigley, a ymunodd ar 1 Ebrill 2003). Hefyd mae swydd wag Cyfarwyddwr an-weithredol ychwanegol, ac mae'r Cwmni yn ceisio llenwi'r swydd honno. Mae gan Gyfarwyddwyr Gweithredol gontractau treigl 12 mis ac fel rheol penodir Cyfarwyddwyr an-weithredol am gyfnod 3 blynedd.

Mae cyfrifoldebau yn cael eu rhannu rhwng y Cadeirydd, y Dirprwy Gadeirydd Gweithredol a'r Prif Weithredwr. Ystyrir bod yr holl Gyfarwyddwyr an-weithredol yn annibynnol.

Caiff cyfarwyddwyr ofyn am gyngor annibynnol wrth gyflawni eu dyletswyddau, gyda'r Grŵp yn talu. Gall holl Gyfarwyddwyr ofyn am gyngor a gwasanaethau Ysgrifennydd y Cwmni.

Mae'r pwyllgorau canlynol yn delio gydag agweddau penodol rheolaeth y Grŵp:

Pwyllgor Archwilio a Risg
Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn cynnwys Cyfarwyddwyr an-weithredol. Mae'r Pwyllgor wedi ei gadeirio trwy gydol y flwyddyn gan Rosemary Thorne, gyda Miles Templeman ac Allan Leighton yr aelodau eraill. Ymddeolodd Miles Templeman o'r Pwyllgor ar 4 Mawrth 2003 ac fe'i disodlwyd gan John Neill. Disodlwyd Allan Leighton gan Bob Wigley ar 1 Ebrill 2003.

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn darparu fforwm ar gyfer adrodd gan archwilwyr mewnol ac allanol ac mae'n gyfrifol am ystod eang o faterion gan gynnwyd:

- monitro datguddiad risg corfforaethol y busnes ac effeithiolrwydd rheolaeth fewnol;
- arolygu cyfrifon hanner blwyddyn a chyfrifon blynyddol cyn eu cyflwyno i'r Bwrdd;
- cynghori'r Bwrdd ar benodi archwilwyr allanol a'u talu am waith archwilio a gwaith arall;
- trafod natur, sgôp a chanlyniadau'r archwiliad gydag archwilwyr mewnol ac allanol;
- cytuno ar y cynllun archwilio mewnol blynyddol, a
- chadw dan arolygaeth annibyniaeth a gwrthrycholdeb yr archwilwyr mewnol ac allanol.

Bwrdd Rheoli
Mae'r Dirprwy Gadeirydd Gweithredol, Elmar Toime, yn cadeirio'r Bwrdd Rheoli, sy'n cynnwys holl Gyfarwyddwyr gweithredol Daliadau'r Post Brenhinol ccc a Grŵp y Post Brenhinol ccc, a rhai uwch swyddogion eraill y Grŵp. Mae'r Bwrdd Rheoli yn datblygu strategaeth y Grŵp, cynlluniau gweithredu blynyddol a chyllidebau ar gyfer cymeradwyaeth y Bwrdd ac yn monitro eu gweithrediad. Mae'n adolygu gweithgareddau gweithredol, yn pennu polisïau lle nad yw'r rhain yn cael eu neilltuo i'r Bwrdd.

Mae'r Bwrdd Rheoli yn cynnwys:

Elmar Toime, Dirprwy Gadeirydd Gweithredol
Paul Bateson, Rheolwr-Gyfarwyddwr Logisteg
Marisa Cassoni, Cyfarwyddwr Cyllid y Grŵp
Vanessa Leeson, Rheolwr-Gyfarwyddwr PW
David Mills, Prif Weithredwr Swyddfa'r Post Cyf
Alan Williams, Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol
Adam Crozier, Prif Weithredwr Grŵp y Post Brenhinol ccc
David Burden, Prif Swyddog Gwybodaeth
Jerry Cope, Rheolwr-Gyfarwyddwr y DG, Post Brenhinol
Tony McCarthy, Cyfarwyddwr Grŵp Datblygu'r Gyfundrefn a Phobl
Paul Rich, Dirprwy Reolwr-Gyfarwyddwr a Chyfarwyddwr Marchnata DG, Post Brenhinol
Kevin Williams, Rheolwr-Gyfarwyddwr Rhyngwladol

Rheolaeth Gorfforaethol (parhad)

Pwyllgor Pensiynau
Cadeirir y Pwyllgor Pensiynau gan Marisa Cassoni. Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am adolygu cyllid, budd-daliadau, strwythur y cynllun a datblygiadau strategol sy'n effeithio cynlluniau pensiwn galwedigaethol y Grŵp. Mae'r Pwyllgor yn cynrychioli'r Grŵp mewn trafodaethau gydag Ymddiriedolwyr cynlluniau pensiwn galwedigaethol y Grŵp. Aelodau eraill yw Ysgrifennydd y Cwmni, Jonathan Evans a Chyfarwyddwr y Grŵp Pobl a Datblygu'r Gyfundrefn, Tony McCarthy.

Pwyllgor Taliadau
Mae'r Pwyllgor Taliadau yn datblygu polisi'r Cwmni ar daliadau Cyfarwyddwyr gweithredol ar gyfer eu cymeradwyo gan y Bwrdd a'r Ysgrifennydd Gwladol. Mae'r Pwyllgor yn cynnwys Cyfarwyddwyr an-weithredol. Yr aelodau tan 3 Mawrth 2003 oedd Miles Templeman (Cadeirydd), Rosemary Thorne, John Lloyd ac Allan Leighton. O'r 4 Mawrth 2003 yr aelodau yw David Fish (Cadeirydd), Rosemary Thorne, Richard Handover a Mike Hodgkinson.

Pwyllgor Enwebu
Mae gan y Pwyllgor Enwebu y rôl gyffredinol o arwain y broses ar gyfer penodiadau i Fwrdd y Cwmni, a phenodiadau i is-fyrddau. Mae rhai penodiadau yn amodol ar gytundeb yr Ysgrifennydd Gwladol. Mae'r Pwyllgor yn cynnwys Cyfarwyddwyr an-weithredol a'r aelodau yw Richard Handover (Cadeirydd), Allan Leighton a David Fish.

Rheolaeth Fewnol

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am y system o reolaeth fewnol a rheoli risg ynghyd ag arolwg amserol ei effeithiolrwydd. Mae'r system wedi ei dylunio i reoli yn hytrach na dileu risg methiant i gyflawni amcanion busnes a medr ond ddarparu sicrhad rhesymol ond nid absoliwt yn erbyn cam-ddatganiad perthnasol neu golled.

Mae proses barhaus ar gyfer adnabod, gwerthuso a rheoli'r risgiau arwyddocaol a wynebu gan y Grŵp yn unol â chyfarwyddyd a fanylwyd gan Bwyllgor Turnbull fel rhan o'r Cod. Mae'r Bwrdd yn adolygu'r broses hon yn rheolaidd. Mae'r broses wedi bodoli ar gyfer y flwyddyn lawn a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r cyfrifon hyn.

Mae'r Bwrdd wedi adolygu effeithiolrwydd y system o reoli risg a rheolaeth fewnol. Mae'r elfennau allweddol yn cynnwys arolwg o'r adroddiadau archwilio mewnol, cadarnhad rheolaidd gan reolwyr lleol a chyfathrebiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg ar ganlyniad cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Risg.

Mae prosesau allweddol rheolaeth fewnol a rheoli risg yn cynnwys y canlynol:

Rheoli strwythur
Mae gan yr unedau busnes awdurdod i reoli o fewn cyfyngiadau a bennir gan y Bwrdd ac o fewn sgôp pwerau neilltuedig. Mae'r Cod Safonau Busnes yn pennu egwyddorion proffesiynoldeb ac integriti ar gyfer ein pobl.

Adnabod a gwerthuso risgiau busnes
Mae proses o hunan-asesu risg a rheolaeth fewnol yn cwmpasu holl feysydd y Grŵp. Mae'r broses yn diffinio risgiau arwyddocaol a'r rheolaethau sy'n bodoli i'w rheoli ac yn ei gwneud yn ofynnol i Reolwr-Gyfarwyddwr pob uned fusnes ymgymryd ag asesiad ffurfiol o effeithiolrwydd rheolaeth risg a phrosesau rheoli. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei chyflwyno i'r Bwrdd. Mae'r swyddogaeth Archwilio Mewnol a Rheoli Risg yn arolygu risgiau'r Grŵp yn rheolaidd am gynnwys, perthnasedd a rheolaeth efffeithiol. Mae'r swyddogaeth hefyd yn ymgymryd ag arolygon rheolaidd o'r meysydd risg mwyaf arwyddocaol ac yn sicrhau bod rheolaethau allweddol yn aros yn eu lle ac yn effeithiol, ac yn adrodd ar ei ddarganfyddiadau i'r Pwyllgor Archwilio a Risg.

System adrodd gwybodaeth ac adroddiadau ariannol
Mae trefniadau cynllunio, ariannol ac adrodd y Grŵp yn cynnwys cyllidebau blynyddol, a gaiff eu hadolygu a'u cymeradwyo gan y Bwrdd. Mae perfformiad yn cael ei fonitro yn rheolaidd trwy gyfeirio at ddangosyddion perfformiad allweddol, rhagolygon a ddiweddarir a gwybodaeth ar y meysydd risg allweddol.

Pwyllgor Archwilio a Risg
Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn adrodd i'r Bwrdd ac yn cyfarfod o leiaf yn chwarterol i fonitro ac arolygu effeithiolrwydd yr amgylchfyd rheoli risg.

Pwyllgor Rheoli Risg
Mae hwn yn is-bwyllgor i'r Pwyllgor Archwilio a Risg. Mae'n pennu'r fframwaith ar gyfer rheoli risg o fewn y Grŵp ac yn sicrhau cyfannu gyda chynllunio strategol. Mae hefyd yn hwyluso adroddiadau rheolaidd ar risgiau allweddol, yn darparu fforwm ar gyfer tanlinellu risgiau sy'n dod i'r amlwg ac yn asesu'r risgiau a adnabuwyd a'r camau a gymerwyd i reoli'r risg i lefel ddymunol.

Adroddiadau ar Daliadau I Gyfarwyddwyr

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am y fframwaith a chostau taliadau gweithredol a'r telerau contractau gwasanaeth a gynigir i bob Cyfarwyddwr, sydd angen caniatâd yr Ysgrifennydd Gwladol. Rôl y Pwyllgor Taliadau yw datblygu'r polisi taliadau ar gyfer Cyfarwyddwyr gweithredol ac yn benodol, i argymell eu cyflogau, budd-daliadau, gan gynnwys bonws, pensiynau a thelerau ac amodau eraill cyflogaeth. Mae'r Pwyllgor hefyd yn argymell telerau ar gyfer terfynu cyflogaeth. Nid oes unrhyw Gyfarwyddwr yn chwarae rhan yn y broses o benderfynu ar ei d/thaliadau ef neu hi.

Mae'r Pwyllgor Taliadau yn cynnwys Cyfarwyddwyr an-weithredol yn unig, fel a amlinellir uchod. Trwy gydol y flwyddyn, mae'r Cwmni wedi defnyddio'r egwyddorion yn Adran 1 y Cod Cyfun ar Reolaeth Gorfforaethol (y Cod) ac wedi cydymffurfio gyda'r Cod.

Wrth berfformio ei rôl, mae'r Pwyllgor yn medru gofyn am gyngor cynghorwyr proffesiynol o fewn y Cwmni. Ni gomisiynodd y Cwmni unrhyw gyngor allanol yn ystod y cyfnod ond gofynnodd trwy gyfrwng y Cwmni am gyngor gan yr Hay Group ar gymharwyr pecyn taliadau meincnodol, Watson Hyatt ar drefniadau pensiwn ar gyfer rhai Cyfarwyddwyr gweithredol penodol ac Adran Cyfalaf Dynol Ernst & Young mewn perthynas â'r Cynllun Cymhelliad Hirdymor.

Polisi ar dalu Cyfarwyddwyr
Polisi'r Cwmni ar daliadau Cyfarwyddwyr yw bod y pecyn taliadau cyffredinol yn ddigon cystadleuol i ddenu a chadw pobl gyda'r nodweddion angenrheidiol mewn busnes cymhleth a marchnad ryngwladol gystadleuol. Mae'r pecyn yn cynnwys cyflog sylfaenol, budd-daliadau, bonws blynyddol yn gysylltiedig â pherfformiad, pensiynau a Chynllun Cymhelliad Hirdymor gyda chyfran arwyddocaol yn seiliedig ar berfformiad a chyflawni targedau ymestynnol. Rhoddir ystyriaeth i bolisïau cyflog a chyflogaeth mewn man arall yn y Grŵp, yn enwedig pan yn penderfynu ar gynnydd cyflog blynyddol.

Mae'r Pwyllgor Taliadau, ar ôl derbyn caniatâd gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Nawr wedi gweithredu ei gynigion i ail-linio pecynnau taliadau Cyfarwyddwyr gweithredol i gefnogi Cynllun Adnewyddu'r Cwmni, tra'n sicrhau bod y gwobrau yn farchnad-gystadleuol. Mae'r holl Gyfarwyddwyr gweithredol ar gontractau gwasanaeth sydd wedi eu newid lle bo angen i adlewyrchu arferion masnachol gorau, ac wedi eu cyflwyno ar y cyd gyda'r Cynllun Cymhelliad Hirdymor. Mae'r Cwmni wedi ychwanegu at y bonws ariannol sy'n gysylltiedig â pherfformiad gyda Chynllun Cymhelliad Hirdymor agored yn seiliedig ar dargedau adnewyddu busnes tair blynedd. Mae pwysigrwydd perthynol yr elfen perfformiad o'r taliadau wedi cynyddu yn arwyddocaol, gyda Chyfarwyddwyr â hawl i dderbyn taliadau sylweddol yn gysylltiedig â pherfformiad, ond dim ond ar ôl cyflawni targedau ymestynnol yn seiliedig ar fesurau sy'n gysylltiedig gydag adenillion dros dymor hirach.

Cytunir ffïoedd i'r Cadeirydd a'r cyfarwyddwyr an-weithredol gyda'r Ysgrifennydd Gwladol, ac ar hyn o bryd maent yn £20,000 a £30,000 y flwyddyn. Telir ffïoedd ychwanegol i Gadeiryddion ac aelodau pwyllgorau.

Mae'r pecynnau taliadau ar gyfer Cyfarwyddwyr gweithredol yn cynnwys yr elfennau a ganlyn:

Cyflog sylfaenol
Adolygir cyflogau bob blwyddyn ac fe argymellir cynnydd priodol pan fo'r Pwyllgor yn credu bod angen hynny i adlewyrchu perfformiad, cynnydd mewn cyfrifoldebau unigol a lefelau'r farchnad.

Bonws blynyddol personol yn gysylltiedig â pherfformiad
Gall y Cadeirydd a'r Cyfarwyddwyr gweithredol ennill bonws perfformiad am gyflawni targedau ariannol a chwsmer. Mae'r bonws yn seiliedig ar dargedau a bennir bob blwyddyn yn unol â'r Cynllun Adnewyddu ac yn cael ei gytuno gyda'r Cyfranddaliwr. Y bonws blynyddol mwyaf ar gyfer holl Gyfarwyddwyr gweithredol, ac eithrio'r Dirprwy Gadeirydd Gweithredol a Phrif Weithredwr Grŵp y Post Brenhinol ccc, yw 40% o'r cyflog sylfaenol. Gall y Dirprwy Gadeirydd Gweithredol a Phrif Weithredwr Grŵp y Post Brenhinol ccc ennill hyd at 75%; caiff y Cadeirydd an-weithredol ennill bonws perfformiad blynyddol o £180,000. Mae 80% o'r enillion bonws posibl yn delio gyda pherfformiad ariannol ac 20% yn delio gyda thargedau gwasanaeth cwsmeriaid. Gall Prif Weithredwr Swyddfa'r Post Cyfyngedig ennill hyd at 40% o gyflog sylfaenol yn seiliedig ar gyflawni targedau ariannol Swyddfa'r Post Cyfyngedig (80%), targedau ariannol y Grŵp (16%) a safonau gwasanaeth cwsmeriaid (4%).

Budd-daliadau
Mae budd-daliadau yn ymgorffori holl fudd-daliadau yn deillio o'u cyflogaeth. Yn bennaf, mae'r rhain yn delio gyda darparu cerbydau cwmni, budd-dal marwolaeth yn y swydd ac yswiriant iechyd ynghyd ag arian sydd gyfwerth ag unrhyw fudd-daliadau nas cymerir.

Pensiynau
Mae gan y Grŵp gyfrifoldeb i dalu pensiynau mewn perthynas â gwasanaethau Cyfarwyddwyr ac ar gyfer rhai Cyfarwyddwyr gweithredol mae'n gwneud cyfraniadau i gynlluniau pensiwn ar gyfer hyn. Mae'r Cwmni wedi sefydlu Cynllun Budd-daliadau Ymddeoliad Anghymeradwy a Ariannwyd (FURBS). Bydd y FURBS yn darparu budd-daliadau i Gyfarwyddwyr a gweithwyr y mae eu cyfraniadau i gynllun y Cwmni wedi eu cyfyngu gan gap enillion y Refeniw Gwladol.

Cynllun Cymhelliad Hirdymor
Yn ddiweddar, cyflwynodd y Cwmni Gynllun Cymhelliad Hirdymor ar gyfer ei uwch reolwyr, a gymeradwywyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol i'w ddefnyddio ar gyfer Cyfarwyddwyr gweithredol. Amcanion y Cynllun Cymhelliad Hirdymor yw cymell cyflwyniad amcanion busnes hirdymor y Grŵp a gwobrwyo llwyddiant wrth gyflawni'r amcanion hyn dros gyfnod 3 blynedd, neu wneud yn well na'r amcanion.

Mae'r Cynllun yn cynnwys Gwobrau Perfformiad Blynyddol a Gwobrau Bonws, y ddau yn cael eu rhoi ar ddisgresiwn y Pwyllgor Taliadau. Bydd Gwobrau Perfformiad Blynyddol yn cronni ar raddfa lithr uwchben lefel trothwy perfformiad ariannol y Grŵp, yn unol â thargedau elw gweithredol y Cynllun Adnewyddu, ac yn amodol ar berfformiad personol boddhaol. Mae'r targedau elw gweithredol yn y Cynllun Adnewyddu wedi eu cytuno gyda'r Llywodraeth, ein hunig gyfranddaliwr ac yn seiliedig ar symud y Grŵp o golled o weithrediadau o £318m yn 2001-02 i elw, cyn cost y cynllun 'Share in Success' a gwobrau'r Cynllun Cymhelliad Hirdymor, o £400m yn 2004-05. Gall uwch reolwyr unigol dderbyn gwobrwyon blynyddol o hyd at 37.5% o'u cyflog sylfaenol os yw'r Grŵp yn cyflawni 120% o'r targed a gytunwyd.

Y wobr ar gyfer perfformiad ar darged yw 25% o'r cyflog syflaenol ac ni wneir unrhyw wobr islaw 87.5% o'r targed a gytunwyd. Mae elfen Gwobr Bonws y cynllun yn caniatáu i'r Pwyllgor Taliadau wobrwyo i mewn i'r Cynllun hyd at 50% o'u bonws blynyddol yn gysylltiedig gyda pherfformiad, gan gymryd i ystyriaeth dymuniadau unigol.

Ar ddiwedd y cyfnod tair blynedd, bydd gwerth y gwobrwyon cronnol hyn ynghyd ag unrhyw elfennau bonws a ohiriwyd, yn cael eu talu allan mewn arian ac yn cael eu cynyddu gan hyd at 33% os cyflawnir y targed cronnol dros y 3 blynedd. Yr ychwanegiad mwyaf yw 100% os yw'r targed cronnol dros y tair blynedd yn cael ei guro gan 178%.

Caiff y Pwyllgor Taliadau, os yw'n briodol er mwyn cadw uwch reolwyr allweddol, ganiatáu cyfnod gohirio pellach gydag ychwanegiad y tu hwnt i'r cyfnod 3 blynedd arfaethedig.

Mae'r holl wobrau dan y Cynllun Cymhelliad Hirdymor yn destun gwneud taliadau dan y cynllun 'Share in Success' i bob un o'n pobl. Os na thelir taliadau i'n pobl dan y cynllun 'Share in Success', ni thelir Gwobrau Perfformiad Blynyddol ac ni fydd ychwanegiad i'r Gwobrau Bonws.

Bwriad y cynllun 'Share in Success' yw talu £800 i bob un o'n pobl sy'n gymwys am gyflawni elw ar y targed ar gyfer y flwyddyn ariannol yn diweddu Mawrth 2005, a hyd at £1,200 fesul person os cyflawnir targedau estynnol.

Contractau gwasanaeth
Mae contractau gwasanaeth treigl a llythyrau penodi'r Cyfarwyddwyr yn cynnwys y telerau canlynol:

	Dyddiad contract	Tymor heb orffen ar 30 Mawrth 2003 (misoedd)
Cadeirydd (An-Weithredol)		
Allan Leighton (penodwyd yn Gadeirydd 25 Maw. 2002. Penodwyd yn Gyfarwyddwr an-weithredol yn wreiddiol ar 2 Ebrill 2001)	25 Mawrth 2002	24
Cyfarwyddwyr Gweithredol		
Elmar Toime	1 Mawrth 2003	12
Marisa Cassoni	1 Chwefror 2001	12
Jerry Cope	23 Ionawr 2003	12
Adam Crozier	1 Chwefror 2003	12
Tony McCarthy	6 Ionawr 2003	12
David Mills	15 Ebrill 2002	12
Cyfarwyddwyr An-Weithredol		
David Fish	1 Ionawr 2003	33
Richard Handover	1 Ionawr 2003	33
Mike Hodgkinson	1 Ionawr 2003	33
John Neill	1 Ionawr 2003	33
Rosemary Thorne	26 Mawrth 2002 (penodiad gwreiddiol 6 Hydref 1998 am 3 blynedd + blwyddyn o estyniad)	12
Robert Wigley	1 Ebrill 2003	36

Mae gan bob Cyfarwyddwr an-weithredol gyfnod rhybudd 12 mis gan y Cwmni, caiff Cyfarwyddwr roddi rhybudd 6 mis. Y telerau safonol ar gyfer iawndal am golli swydd yw mwyafswm o 12 mis o gyflog sylfaenol. Mae'r Cwmni ym ymroddedig i'r cyfnod 3 blynedd ar gyfer holl Gyfarwyddwyr an-weithredol, gan gynnwys y Cadeirydd.

Adroddiadau ar Daliadau I Gyfarwyddwyr (Parhad)

Gwybodaeth wedi ei Harchwilio

Roedd taliadau Cyfarwyddwyr, heb gyfrif pensiynau, fel a ganlyn:

					Cyfanswm heb gyfrif pensiwn	
	Cyflog sylfaenol a ffïoedd	Bonws cysylltiedig â pherfformiad	Budd-daliadau	lawndal am golli swydd	**2003**	2002
	£	£	£	£	**£**	£
CADEIRYDD (ANWEITHREDOL)						
Allan Leighton	21,375	165,420	-	-	**186,795**	21,093
Neville Bain (ymddeolodd 31 Rhagfyr 2001)	-	-	-	-	**-**	71,697
GWEITHREDOL						
Elmar Toime (penodwyd 1 Mawrth 2003)	41,667	28,719	3,050	-	**73,436**	-
Marisa Cassoni	295,000	108,442	13,618	-	**417,060**	308,532
Jerry Cope	168,541	58,968	12,607	-	**240,116**	156,854
Adam Crozier (penodwyd 1 Chwefror 2003)	83,333	57,438	2,100	-	**142,871**	-
Tony McCarthy (penodwyd 6 Ionawr 2003)	70,968	26,088	127,937	-	**224,993**	-
David Mills (penodwyd 15 Ebrill 2003)	240,278	94,573	11,934	-	**346,785**	-
John Roberts (ymddeolodd 31 Rhagfyr 2002)	293,645	80,200	10,791	119,108	**503,744**	225,852
ANWEITHREDOL						
David Fish (penodwyd 1 Ionawr 2003)	8,056	-	-	-	**8,056**	-
Richard Handover (penodwyd 1 Ionawr 2003)	7,807	-	-	-	**7,807**	-
Mike Hodgkinson (penodwyd 1 Ionawr 2003)	7,615	-	-	-	**7,615**	-
Mike Kinski (diweddodd contract ar 12 Chwefror 2002)	-	-	-	-	**-**	20,857
John Lloyd (diweddodd contract ar 4 Mawrth 2003)	21,069	-	-	-	**21,069**	21,500
John Neill (penodwyd 1 Ionawr 2003)	7,615	-	-	-	**7,615**	-
Miles Templeman (ymddiswyddodd 4 Mawrth 2003)	25,255	-	-	-	**25,255**	23,054
Rosemary Thorne	26,500	-	-	-	**26,500**	24,000
Cyfanswm 2003	1,318,724	619,848	182,037	119,108	**2,239,717**	-
Cyfanswm 2002	833,241	-	40,198	-	**-**	873,439

Ni thalwyd ffïoedd (2002 dim) i drydydd partïon mewn perthynas â gwasanaethau a ddarparwyd gan Gyfarwyddwyr.

Mae'r ffigurau yn y tabl yn cynrychioli taliadau a enillwyd ac a oedd yn dderbyniadwy fel Cyfarwyddwyr yn ystod y flwyddyn ariannol, pryd bynnag y talwyd. Fel rheol, telir symiau o'r fath yn yr un flwyddyn ariannol ac eithrio bonws blynyddol cysylltiedig â pherfformiad, a delir yn y flwyddyn ddilynol i'r un pan gafodd ei ennill. Dan y Cynllun Cymhelliad Hirdymor newydd, gellir rhoi cyfran ddim mwy na 50% o'r bonws hwn fel gwobr dan y Cynllun gan y Pwyllgor Taliadau, gan gymryd dymuniadau Cyfarwyddwyr gweithredol i ystyriaeth.

Mae'r tabl uchod yn cynnwys unrhyw fudd-daliadau neu dreuliau a dalwyd i'r Cyfarwyddwr ar eu recriwtio. Yn hyn o beth, derbyniodd Tony McCarthy iawndal am gostau a achoswyd ar adael ei gyflogwr blaenorol o £125,000.

Roedd cyflog sylfaenol John Roberts yn cynnwys chwe mis o gyflog yn lle rhybudd yn dod i £119.108.

Gwybodaeth heb ei harchwilio

Fel sy'n ofynnol gan y cyfranddaliwr, wrth benderfynu lefel briodol y bonws blynyddol ar gyfer 2002-03, mae'r Cwmni wedi cymryd i ystyriaeth berfformiad y Cwmni yn erbyn targedau ariannol a gwasanaeth y flwyddyn, ac i ba raddau y mae'r Cwmni ar y llwybr cywir gyda'i Gynllun Adnewyddu tair blynedd.

Mae perfformiad elw'r Cwmni ar lefel weithredol yn well na'r targed yn y Cynllun Adnewyddu ar gyfer y flwyddyn gyntaf o £120m (38%).

Ar wasanaeth i gwsmeriaid, mae'r Pwyllgor wedi cymryd i ystyriaeth y perfformiad yn erbyn targedau'r drwydded a gytunwyd gyda Postcomm, o ran lefelau a gyflawnwyd a gwelliant blwyddyn ar flwyddyn. O'r 15 targed sy'n berthnasol i'r busnesau llythyrau, dim ond tri a gyflawnwyd yn llawn. Serch hynny, dangosodd 14 welliannau cronnol blwyddyn ar flwyddyn ac roedd y 15fed yn cyfateb i lefel y llynedd. At hyn, dangosodd y targed perfformiad ciwio ar gyfer Swyddfa'r Post Cyfyngedig welliant digonol yn y ddau fis olaf yn y flwyddyn i fodloni maen prawf Postcomm i'r targed hwn gael ei ollwng oddi ar y drwydded.

Adroddiadau ar Daliadau I Gyfarwyddwyr (Parhad)

Wrth farnu cynnydd yn erbyn y Cynllun Adnewyddu, mae'r Pwyllgor wedi edrych ar statws y Rhaglenni Adnewyddu allweddol. Mae rhai ond nid pob un ar ei hôl hi, ond mae'r Cwmni wedi sicrhau manteision ychwanegol mewn meysydd eraill i wneud iawn am hyn. Mae'r Pwyllgor yn fodlon bod perfformiad gwariant sylfaenol a chynaliadwy y Cwmni yn unol â gofynion y Cynllun Adnewyddu yn mynd yn ei flaen.

Gwybodaeth Archwilio

Pensiynau
Fel rheol, mae'r Grŵp yn cynnig i'w staff uwch aelodaeth o Gynllun Pensiwn Uwch Weithwyr y Post Brenhinol (RMSEPP). Nodir manylion RMSEPP yn nodyn 21 i'r cyfrifon. Mae'r Cynllun yn gynllun pensiwn galwedigaethol cyflog terfynol wedi ei ariannu, gyda chymeradwyaeth y Refeniw Gwladol. Mae'r cynllun yn darparu ar gyfer pensiwn dwy rhan o dair cyflog terfynol ar oedran ymddeol arferol, yn amodol ar y gwasanaeth pensiynadwy angenrheidiol a chap enillion y Refeniw. Mae pensiynau yn cynyddu yn flynyddol yn unol â Mynegai Prisiau Adwerthu, yn amodol mewn rhai achosion ar gap. Mae pensiynau hefyd yn daladwy i ddibynwyr ar farwolaeth yr aelod, ac mae lwmp swm yn daladwy os oes marwolaeth mewn gwasanaeth.

Ar gyfer uwch weithredwyr y mae eu haelodaeth o RMSEPP yn gyfyngedig gan y cap enillion, gwneir darpariaeth pensiwn trwy gyfuniad o gynllun y Cwmni a Chynllun Budd-daliadau Ymddeoliad Anghymeradwy a Ariennir (FURBS) neu gynllun cyfatebol. Mae cyfraddau cyfraniad cyflogwr yn amrywio rhwng 40% a 55% o gyflog sylfaenol uwchben y cap enillion. Mae'r Cwmni wedi gwneud darpariaeth ar gyfer Elmar Toime, Adam Crozier a Tony McCarthy ar gyfradd o 40% nes ceir penderfyniad terfynol ar drefniadau pensiwn y Cyfarwyddwyr newydd hyn. Cyfanswm y ddarpariaeth ar gyfer FURBS yw £167,740 (2002 £100,000). At hyn, mae David Mills yn derbyn atodiadau arian o 24.2% ar gyfer enillion islaw'r cap pensiynau, a 40% ar gyfer enillion uwchben, yn rhoi cyfanswm o £80,754.

Mae angen datgelu gwerthoedd trosglwyddo pensiwn Cyfarwyddwyr dan ddau ofyniad ar wahân:

- Rheolau Rhestri'r Gyfnewidfa Stoc: mae'r gofynion yr un â'r rhai a ddatgelwyd yng nghyfrifon y llynedd ac wedi eu cynllunio i ddodi gwerth ar y cynnydd ym mudd-daliadau cronnol Cyfarwyddwyr yn ystod y cyfnod. Cyfrifir y gwerth trosglwyddo ar sail cyngor actiwarial yn unol â Nodyn Arweiniad Actiwarial GN11 ac nid yw'n cynnwys cyfraniadau Cyfarwyddwyr.

- Rheolau Adroddiadau Taliadau Cyfarwyddwyr 2002: mae hwn yn ofyniad newydd ac fe'i cynlluniwyd i asesu'r newid yn y gwerthoedd trosglwyddo yn ystod y flwyddyn, gan gymryd i ystyriaeth symudiad mewn amodau'r farchnad fuddsoddi. Gall cwymp yng ngwerthoedd y farchnad gynhyrchu symudiad negyddol yn y gwerthoedd trosglwyddo.

Mae'r gwerthoedd trosglwyddo a ddatgelwyd yn cynrychioli atebolrwydd posibl i'r Cwmni yn hytrach nag unrhyw daliad i'r unigolyn ac ni ellir ei gyfanrifo yn ystyrlon gyda thaliadau blynyddol, gan nad yw'n arian y mae gan yr unigolyn hawl i'w dderbyn.

Hawliadau pensiwn (dan Reolau Rhestri'r Gyfnewidfa Stoc) y Cyfarwyddwyr ar ddiwedd y flwyddyn oedd:

	Oedran	Budd-dal cronnol ar 30 Mawrth 2003	Cynnydd mewn budd-daliadau cronnol yn ystod y cyfnod*	Cynnydd mewn budd-daliadau cronnol yn ystod y cyfnod (heb gynnwys chwyddiant)*	Gwerth trosglwyddo* cynnydd cyn chwyddiant llai cyfraniadau'r Cyfarwyddwyr
		£	£	£	£
John Roberts	58	161,161	11,292	33,964	730,056
Jerry Cope	51	85,945	10,014	8,723	78,965
Marisa Cassoni	51	107,537	1,655	1,624	8,266
Elmar Toime	55	275	275	275	2,879
Adam Crozier	39	524	524	524	1,482
Tony McCarthy	47	377	377	377	299
David Mills	59	1,558	1,558	1,558	20,173

* Heb gynnwys unrhyw gynnydd yn deillio o drosglwyddo hawliadau pensiwn wedi cronni gyda chyflogwyr blaenorol.

Adroddiadau ar Daliadau I Gyfarwyddwyr (Parhad)

Mae gwerth trosglwyddo (yn unol â Rheolau Adroddiad Taliadau Cyfarwyddwyr 2002) a budd-daliadau pob Cyfarwyddwr wedi cronni ar ddiwedd y flwyddyn ariannol fel a ganlyn:

	Oedran	Ar 31 Mawrth 2002	Ynghyd â throsglwyddiadau i mewn a dderbyniwyd	Is-gyfanswm	Ar 31 Mawrth 2003	Symudiad yn y cyfnod, llai cyfraniadau Cyfarwyddwyr
		£	£	£	£	£
John Roberts	58	2,416,122	-	2,416,122	3,516,855	1,100,733
Jerry Cope	51	939,789	-	939,789	767,026	(176,134)
Marisa Cassoni	51	22,376	916,751	939,127	933,777	(11,182)
Elmar Toime	55	-	-	-	3,365	2,879
Adam Crozier	39	-	-	-	2,454	1,482
Tony McCarthy	47	-	-	-	1,687	299
David Mills	59	-	-	-	26,005	20,173

Roedd John Roberts yn weithiwr gyda'r Post Brenhinol am y 35 blwyddyn blaenorol ac, yn fwy diweddar, yn aelod o'r RMSEPP tan ei ymddeoliad ar 31 Rhagfyr 2002, ar bensiwn o £161,161 y flwyddyn. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol flaenorol, roedd gan John Roberts hawl pensiwn wedi ei ohirio o £149,869 y flwyddyn, neu hawl pensiwn ar unwaith o £127,197 y flwyddyn ar ôl caniatáu ar gyfer y ffactor gostyngiad ymddeoliad cynnar. Mae'r cynnydd yn y pensiwn cronnol o £33,964 yn cynrychioli'r cynnydd (cyn chwyddiant) yn ei hawliad pensiwn ar unwaith, yn deillio o'i ymadawiad. Effaith ymddeoliad cynnar ar y gwerth trosglwyddo a ddangosir yn y tabl uchod yw £663,000. Mae'r balans o £1,100,733 yn deillio o groniadau pensiwn arferol a symudiad marchnad ffafriol adeg ymddeoliad.

Yn ystod y flwyddyn, trosglwyddodd Marisa Cassoni daliad o £916,751 i mewn i'r RMSEPP. Roedd hyn yn darparu pensiwn cronnol ychwanegol o £104,035 y flwyddyn. Effaith y pensiwn ychwanegol hwn yw lleihau cyfradd acriwio Marisa Cassoni yn y dyfodol o fewn RMSEPP o 1/30fed i 1/60fed.

Mae Tony McCarthy a David Mills hefyd ar sylfaen 1/60fed oherwydd effaith budd-daliadau a gadwyd gan gyflogwyr blaenorol. Mae holl Gyfarwyddwyr gweithredol eraill yn aelodau o RMSEPP ar sail 1/30fed.

Trwy orchymyn y Pwyllgor Taliadau

Jonathan Evans

Ysgrifennydd

Llundain

28 Mai 2003

Daliadau'r Post Brenhinol ccc

Datganiad o gyfrifoldebau Cyfarwyddwyr mewn perthynas â'r cyfrifon

Mae cyfraith cwmnïau yn ei gwneud yn ofynnol i Gyfarwyddwyr baratoi cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n rhoi golwg wirioneddol a theg o gyflwr y Cwmni a'r Grŵp ac elw neu golled y Grŵp ar gyfer y cyfnod hwnnw.

Wrth baratoi'r cyfrifon hynny mae angen i'r Cyfarwyddwyr:
- ddewis polisïau cyfrifeg addas a'u defnyddio yn gyson;
- llunio barn ac amcangyfrifon sy'n rhesymol a doeth, a
- datgan os yw safonau cyfrifeg perthnasol wedi eu dilyn, yn amodol ar unrhyw wyriadau perthnasol a ddatgelwyd ac a esboniwyd yn y cyfrifon.

Mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am sicrhau bod cofnodion cyfrifeg priodol yn cael eu cadw sy'n datgelu gyda chywirdeb rhesymol, ar unrhyw adeg, sefyllfa ariannol y Cwmni a'r Grŵp, ac sy'n eu galluogi i sicrhau bod y cyfrifon yn cydymffurfio gyda Deddf Cwmnïau 1985. Mae'r Cyfarwyddwyr hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod asedion y Grŵp yn cael eu gwarchod ac felly am gymryd camau rhesymol i rwystro a chanfod twyll ac afreoleidd-dra arall.

Daliadau'r Post Brenhinol ccc

Adroddiad archwiliwr annibynnol i aelodau Daliadau'r Post Brenhinol ccc

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol y Grŵp ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 30 Mawrth 2003 sy'n cynnwys cyfrifon colled ac elw'r Grŵp, mantolenni y Grŵp a'r Cwmni, datganiad llif arian y Grŵp, datganiad y Grŵp ar enillion a cholledion cydnabyddedig, polisïau cyfrifeg a nodiadau cyffredinol a'r nodiadau cysylltiedig 1 i 28. Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi eu paratoi ar sail y polisïau cyfrifeg a nodir ynddynt. Rydym hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad Taliadau Cyfarwyddwyr a ddisgrifir fel un a archwiliwyd.

Gwneir yr adroddiad hwn i aelodau'r Cwmni yn unig, fel corff, yn unol ag adran 235 Deddf Cwmnïau 1985. Ymgymerwyd â'n gwaith archwilio er mwyn i ni fedru datgan i aelodau'r Cwmni y materion hynny y mae angen i ni eu datgan iddynt mewn adroddiad archwiliwr ac nid i unrhyw ddiben arall. I'r pwynt lleiaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn na thybio cyfrifoldeb i unrhyw un ar wahân i'r Cwmni ac aelodau'r Cwmni fel corff, am ein gwaith archwilio, neu'r farn a luniwyd.

Cyfrifoldebau Cyfarwyddwyr ac Archwiliwyr
Y Cyfarwyddwyr sy'n gyfrifol am baratoi'r cyfrifon, gan gynnwys y datganiadau ariannol sydd angen eu paratoi yn unol â chyfreithiau perthnasol y DG a safonau cyfrifeg fel a nodwyd yn y datganiad ar gyfrifoldebau Cyfarwyddwyr mewn perthynas â'r cyfrifon.

Ein cyfrifoldeb ni yw archwilio'r datganiadau ariannol yn unol â gofynion cyfreithiol a rheolaethol a Safonau Archwilio'r Deyrnas Gyfunol.

Rydym yn adrodd i chi ein barn ar a yw'r datgniadau ariannol yn rhoi darlun teg a gwir ac os yw'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi yn briodol yn unol â Deddf Cwmnïau 1985. Rydym hefyd yn adrodd i chi os, yn ein barn ni, nad yw Adroddiad y Cyfarwyddwyr yn gyson gyda'r datganiadau ariannol, os nad yw'r Cwmni wedi cadw cofnodion cyfrifeg priodol, os nad ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnom ar gyfer ein harchwiliad, neu os yw gwybodaeth a nodir dan y gyfraith ar daliadau Cyfarwyddwyr a thrafodaethau gyda'r Grŵp yn cael eu datgelu.

Rydym yn darllen gwybodaeth arall yn y cyfrifon ac yn ystyried os yw'n gyson gyda datganiadau ariannol a archwiliwyd. Mae'r wybodaeth arall hon yn cynnwys Adroddiad y Cyfarwyddwyr, Arolwg Ariannol, Adroddiad Taliadau Cyfarwyddwyr a Datganiad Rheolaeth Gorfforaethol. Rydym yn ystyried y goblygiadau i'n hadroddiad os ydym yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau ymdangosiadol neu anghysondeb perthnasol gyda'r datganiadau ariannol. Nid yw ein cyfrifoldeb yn cynnwys unrhyw wybodaeth arall.

Sylfaen barn archwilio
Rydym wedi ymgymryd â'n harchwiliad yn unol â Safonau Archwilio'r Deyrnas Gyfunol a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae'n cynnwys achwiliad, ar sail prawf, tystiolaeth sy'n berthnasol i'r cyfrifon a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon arwyddocaol a beirniadaethau a wnaed gan y Cyfarwyddwyr wrth baratoi'r datganiadau ariannol, ac os yw'r polisïau cyfrifeg yn briodol i amgylchiadau'r Grŵp, yn cael eu defnyddio'n gyson ac yn cael eu datgelu yn ddigonol.

Rydym wedi cynllunio a pherfformio ein harchwiliad er mwyn cael yr holl wybodaeth ac esboniadau a ystyriwyd yn angenrheidiol gennym i ddarparu tystiolaeth ddigonol i roddi sicrhad rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd rhag camddatganiadau perthnasol, boed oherwydd twyll neu afreoleidd-dra neu gamgymeriad arall. Wrth lunio ein barn, rydym hefyd wedi gwerthuso digonolrwydd cyffredinol cyflwyniad gwybodaeth yn y datganiadau ariannol.

Barn
Yn ein barn ni, mae'r datganiadau yn rhoi darlun gwirioneddol a theg o gyflwr y Cwmni a'r Grŵp ar 30 Mawrth 2003 ac o golled y Grŵp ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar y dyddiad hwnnw, a bod y datganiadau ariannol wedi eu paratoi yn briodol yn unol â Deddf Cwmnïau 1985.

Ernst & Young LLP
Archwiliwr Cofrestredig
Llundain
28 Mai 2003

Daliadau'r Post Brenhinol ccc

Polisïau cyfrifeg a nodiadau cyffredinol

Mae'r polisïau cyfrifeg a nodiadau cyffredinol canlynol yn berthnasol ledled y Grŵp:

A) Busnes byw

Nododd cyfrifon y Grŵp ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2002 aniscrwydd ynglyn â sut roedd anghenion ariannol y Grŵp i'r dyfodol yn mynd i gael eu hariannu. Roedd angen y cyllid ar gyfer y ddau brif fusnes, Grŵp y Post Brenhinol yn cynnwys llythyrau pharseli a Swyddfeydd Post Cyfyngedig ar gyfer y rhwydwaith Swyddfeydd Post.

Yn ystod y flwyddyn, llofnodwyd dogfennau benthyciad gyda'r Llywodraeth yn rhoi mynediad i Grŵp y Post Brenhinol ccc i £1,044m o arian ar delerau masnachol. Yn seiliedig ar ragolygon llif arian presennol, mae'r Cyfarwyddwyr yn credu bod hyn yn ddigonol i fodloni anghenion ariannu y busnes hwn i'r dyfodol rhagweladwy. Mae'r holl amodau perthnasol sy'n gysylltiedig gyda'r cyllid hwn, gan gynnwys canlyniad boddhaol o gynigion rheoli prisiau Postcomm, wedi eu bodloni. Mae'r busnes nawr yn medru benthyg yn erbyn y cyfleuster hwn, pan fo angen. Oherwydd hyn, mae'r Cyfarwyddwyr wedi casglu nad oes unrhyw ansicrwydd bellach ynglŷn ag ariannu'r busnes hwn.

Mewn perthynas â Swyddfa'r Post Cyfyngedig, cafwyd cytundeb rhwng Daliadau'r Post Brenhinol ccc a'r Llywodraeth ar sut y rhoddir cefnogaeth ariannol i'r cwmni. Mae cynlluniau strategol presennol Swyddfa'r Post Cyfyngedig yn awgrymu bod angen £0.70bn ar gyfer anghenion gweithredol a £1.2bn arall ar gyfer cyfleusterau cyfalaf gweithredol. Mae'r pecyn ariannu a gytunwyd yn cynnwys y canlynol:

(a) diddymu'r ddyled o £464m sy'n ddyledus i Grŵp y Post Brenhinol yn erbyn cronfa wrth gefn arbennig Grŵp y Post Brenhinol wedi ei gefnogi gan wargedau blaenorol y Grŵp;

(b) talidau rhwydwaith gwledig o £150m y flwyddyn ar gyfer y tair blynedd nesaf i gefnogi cynnal y rhwydwaith gwledig o Swyddfeydd Post;

(c) symiau pellach o gronfa arbennig y Post Brenhinol i ddiwallu allanlifau arian net Swyddfa'r Post Cyfyngedig tan 2006-07.

Bydd y Llywodraeth hefyd yn rhoi cyfleusterau benthyca o hyd at £1.2bn i ariannu anghenion cyfalaf gweithredol, yn deillio o dynnu yn ôl gan yr Adran Gwaith a Phensiynau o gyllid ymlaen llaw ar gyfer taliadau budd-dal ar ei ran dros rwydwaith y Swyddfeydd Post.

Mae'r uchod oll wedi ei gytuno ac mae'r cyfleusterau benthyca £1.2bn yn y broses o gael ei ddogfennu.

Ar ôl ystyried rhagolygon llif arian y Grŵp, mae'r Cyfarwyddwyr wedi casglu y bydd y Grŵp yn parhau mewn bodolaeth weithredol ar gyfer y dyfodol rhagweladwy.

B) Sylfaen Paratoi

Mae'r cyfrifon ar dudalennau 24 i 55 wedi eu paratoi yn unol â safonau cyfrifeg perthnasol dan y confensiwn cyfrifeg cost hanesyddol a gofynion Deddf Cwmnïau 1985, ar wahân i'r mater a ddisgrifir yn nodyn polisi cyfrifeg I(iii) ac a fesurir yn nodyn 11.

Nid yw Daliadau'r Post Brenhinol ccc (y Cwmni) wedi cyflwyno ei gyfrifon elw a cholledion ei hunan, fel a ganiateir gan Deddf Cwmnïau 1985 a 230(3). Fodd bynnag, datgelir canlyniadau'r Cwmni ar gyfer y flwddyn yn nodyn 28.

Nid oes unrhyw Safonau Adroddiadau Ariannol newydd, sy'n effeithio cyflwyniad y cyfrifon hyn, wedi eu cyhoeddi gan y Bwrdd Safonau Cyfrifo.

C) Blwyddyn ariannol

Mae'r flwyddyn ariannol yn diweddu ar y dydd Sul olaf ym mis Mawrth ac felly mae'r cyfrifon hyn yn trin y cyfnod o 52 wythnos a ddiweddodd 30 Mawrth 2003 (2002 53 wythnos).

CH) Sail cyfuno

Mae'r cyfrifon yn gyfansawdd cyfrifon Daliadau'r Post Brenhinol ccc a'i is-gwmnïau.

Mae hunaniaethau, ar wahân i is-gwmnïau, y mae gan y Grŵp ddiddordebau cyfranogol ynddynt a thros bolisïau gweithredol ac ariannol y rhain y mae'r Grŵp yn ymarfer dylanwad arwyddocaol, yn cael eu trin fel cyfranogion, neu, lle mae gan y Grŵp gyd-reolaeth, cyd-fentrau. Yn y cyfrifon cyfansawdd, caiff cyfranogion eu trin gan ddefnyddio''r dull ecwiti a chyd-fentrau gan ddefnyddio'r dull ecwiti gros.

Mae'r Grŵp yn gweithredu trwy gyfrwng unedau busnes sy'n defnyddio gwasanaethau ei gilydd er mwyn manteisio ar synergiaeth y Grŵp, o ystyried cyd-ddibyniaethau sy'n bodoli. Mae'r taliadau rhyng-fusnes yn cydnabod y dibyniaethau hyn. Polisi'r Bwrdd yw cynnal rheolaeth i sicrhau cadw at egwyddorion prisio priodol.

Polisïau cyfrifeg a nodiadau cyffredinol (parhad)

D) Trosiant

Mae trosiant yn cynnwys refeniw sy'n dderbyniadwy yn uniongyrchol gan gwsmeriaid fel a addaswyd ar gyfer asesiad o stampiau rhagdaledig a gwerthiannau mesurydd yn nwylo'r cyhoedd. Nid yw trosiant yn cynnwys TAW.

Nid ystyrir bod gwahaniaeth arwyddocaol rhwng trosiant yn ôl tarddiad a chyrchfan.

DD) Ewyllys Da

Mae ewyllys da yn deillio o bryniant, sef y swm dros ben o'r ystyriaeth dros werth teg asedion net adnabyddadwy ar wahân a brynir, yn cael ei gyfalafu a'i amorteiddio ar sail llinol dros ei fywyd economaidd defnyddiol amcangyfrifiedig o 20 mlynedd. Caiff ei adolygu ar gyfer amhariad ar ddiwedd y flwyddyn ariannol lawn gyntaf ar ôl prynu ac wedyn fel y bo'n briodol.

E) Asedion sefydlog dirweddol

(i) Mae asedion sefydlog dirweddol yn cael eu cydnabod ar gost, gan gynnwys costau priodoladwy uniongyrchol o ddod â'r ased i gyflwr gweithredu ar gyfer ei ddefnydd bwriedig.

(ii) Darperir dadbrisiant asedion sefydlog dirweddol ar sail llinol trwy gyfeirio at y gost wreiddiol, a bywydau economaidd defnyddiol gweddillol asedion a'u gwerthoedd gweddillol amcangyfrifiedig. Yr oes a roddir i brif gategorïau asedion sefydlog dirweddol yw:

Eiddo:	
adeiladau rhyddfreiniol	hyd at 60 blwyddyn
tir ac adeiladau prydlesol	y byrraf rhwng cyfnod y brydles, 60 blwyddyn neu oes ddefnyddiol a amcangyfrifir sydd ar ôl
Offer a pheiriannau	3 - 15 mlynedd
Cerbydau modur	1 - 12 mlynedd
Gosodion ac offer:	
peiriannau swyddfa	3 - 12 mlynedd
cyfrifiaduron	2 - 7 mlynedd
arall	4 - 15 mlynedd

(iii) Perfformir arolygon amhariad asedion sefydlog yn flynyddol ar gyfer asedion gydag oes ddefnyddiol sydd ar ôl o fwy na 50 mlynedd, ac yn ychwanegol pan fo awgrym o amhariad fel a ddiffinnir gan FRS 11.

F) Prydlesu a Hur-Bwrcas

Mae asedion a gaiff eu prynu dan brydlesau ariannu neu gytundebau hur-bwrcas yn cael eu cyfalafu a'u trin fel asedion sefydlog dirweddol. Darperir dadbrisiant yn unol â hynny ac mae elfen gyfalaf rhentiadau yn y dyfodol yn cael ei chynnwys o fewn credydwyr. Codir llogau ar gontractau o'r fath i'r cyfrif elw a cholled dros gyfnod y contract ac mae'n cynrychioli tâl sy'n berthnasol i'r gyfran o'r ad-daliadau cyfalaf sydd ar ôl. Mae holl brydlesau eraill yn cael eu trin fel prydlesau gweithredol ac fe godir rhentiadau ar sail llinol ar y cyfnod prydlesu.

FF) Buddsoddiadau

(i) Yng nghyfrifon y Cwmni, nodir y buddsoddiadau mewn is-gwmnïau, cyfranogwyr a chyd-fentrau ar gost llai darpariaeth ar gyfer amhariad ar gyfer ymgymeriadau a brynwyd a gwerth ased net ar gyfer cwmnïau a ffurfir yn fewnol.

(ii) Nodir buddsoddiadau asedion sefydlog eraill ar gost llai darparieth ar gyfer amhariad.

(iii) Nodir gwarannau eurymylog y Llywodraeth, a ddelir fel asedion cyfredol, ar werth y farchnad adeg dyddiad y fantolen ac fe eir â'r gwahaniaeth rhwng cost a gwerth ar y farchnad i'r cyfrif elw a cholled. Mae'r driniaeth hon yn wyriad o reolau cyfrifo'r DG, sy'n pennu bod elw heb ei sylweddoli yn cael ei gredydu i gronfa ail-brisio. Ym marn y Cyfarwyddwyr, mae'r driniaeth a fabwysiadwyd yn angenrheidiol i gyflwyno darlun teg a chywir. Mae'r driniaeth gyfrifeg a fabwysiadwyd yn cynrychioli adlewyrchiad tecach o adenilliad y buddsoddiad. Mae holl fuddsoddiadau asedion cyfredol eraill yn cael eu trin yn unol â rheolau cyfrifo'r DG.

G) Stociau

Mae stociau yn cynnwys storiau heb eu cyflwyno, megis lifrai, beiciau a phapurach ac yn achos gwasanaethau cwonter, maent hefyd yn cynnwys stoc adwerthu. Mae'r holl stoc yn cael ei gadw ar yr isaf o gostau a gwerth sylweddoladwy net.

NG) Treth wedi ei gohirio

Darperir treth wedi ei gohirio yn gyffredinol yn llawn ar wahaniaethau amseru ar ddyddiad y fantolen, ar gyfraddau a ddisgwylir y byddant yn berthnasol pan fo'r rhwymedigaeth treth (neu ased) yn crisialu yn seiliedig ar gyfraddau treth a chyfraith a weithredwyd yn sylweddol. Mae gwahaniaethau amseru yn deillio o gynnwys eitemau incwm a gwariant mewn cyfrifiadau trethi mewn cyfnodau sy'n wahanol i'r rhai a gynhwysir yn y cyfrifon.

Nid yw trethi a ohiriwyd yn cael eu cydnabod yn yr achosion canlynol:

- ar enillion ar werthu asedion sefydlog lle, ar sail y dystiolaeth sydd ar gael, mae'n fwy tebygol y bydd yr enillion treth yn cael eu cario trosodd i asedion newydd a'u debydu i dreth dim ond pan fo ymrwymiad i waredu'r asedion newydd hynny;
- ar enillion annychweledig is-gwmnïau a chyfranogion pan nad oes ymrwymiad i ddychwelyd yr enillion hynny, a
- cydnabyddir asedion treth a ohiriwyd dim ond os yw'r Cyfarwyddwyr yn ystyried eu bod yn fwy tebygol na pheidio y bydd elw trethadwy addas o'r rhain y gellir tynnu gwrthdroadau yn y dyfodol ar y gwahaniaethau amseru sylfaenol.

Nid yw asedion ac atebolrwydd trethi wedi eu gohirio yn cael ei disgowntio.

H) Pensiynau a budd-daliadau eraill ar ôl ymddeoliad

Mae aelodaeth o gynlluniau pensiwn galwedigaethol (fel a fanylir yn nodyn 21) yn agored i'r rhan fwyaf o weithwyr parhaol DG y Grŵp. Mae holl aelodau cynlluniau budd-dal a ddiffiniwyd wedi eu contractio allan o'r rhan enillion-gysylltiedig cynllun pensiwn Gwladol. Mae is-gwmnïau tramor yn gwneud trefniadau ar wahân ar gyfer darparu pensiynau a budd-daliadau eraill ar ôl ymddeol.

Ariennir y cynlluniau budd-dal a ddiffiniwyd ar y sylfaen bod y cyfraniadau gwasanaeth cyfredol cyfun sy'n daladwy gan y gweithwyr a'r cyflogwr yn ddigonol i dalu cost y budd-daliadau a ddisgwylir iddynt gronni yn y dyfodol i'r aelodau. Cyfrifir y gost i'r cyfrif elw a cholled er mwyn lledaenu amrywiadau o gost rheolaidd ac i amorteiddio'r gwarged neu'r diffyg dros fywyd gwasanaeth disgwyliedig sy'n weddill y gweithwyr. Delir asedion y cynlluniau mewn cronfeydd a weinyddir gan ymddiriedolwyr.

Mae gwerthusiad cynlluniau budd-daliadau a ddiffinnir yn cael eu gwneud gan actiwari proffesiynol annibynnol ar gyfnodau heb fod yn fwy na thair blynedd fel rheol, yn ôl penderfyniad yr Ymddiriedolwyr. Mae'r tâl cyfrifo ar gyfer pensiynau yn adlewyrchu tybiaethau amcangyfrif gorau fel sy'n ofynnol gan SSAP 24, tra bo'r trefniadau ariannu yn defnyddio tybiaeth mwy gofalus ar gyfer dychweliadau buddsoddiad i asedu sefyllfa ariannol Cynllun Pensiwn y Post Brenhinol. Mae hyn yn arwain at daliadau ariannol sy'n uwch na'r tâl cyfrifon ar gyfer y Cynllun Pensiwn. Mae'r gwahaniaeth yn cael ei drin trwy'r dyledwr pensiynau hirdymor yn y fantolen.

I) Ymchwil a datblygu

Mae gwariant ar ymchwil a datblygiad yn cael ei ddiddymu yn y flwyddyn pan gaiff ei achosi.

L) Arian cyfred tramor

Cofnodir trafodaethau mewn arian cyfred tramor ar y gyfradd sy'n berthnasol adeg y drafodaeth (neu cyfradd gontract is yw'r drafodaeth yn dod dan gontract arian cyfred tramor). Mae asedion a chyfrifoldebau ariannol a ddynodir mewn arian cyfred tramor yn cael eu hail-drosi ar y gyfradd gyfnewid sy'n berthnasol ar ddyddiad y fantolen (neu'r gyfradd contract ymlaen briodol). Mae'r gwahaniaethau yn mynd i'r cyfrif elw a cholled ac eithrio gwahaniaethau ar fenthyciadau arian cyfred tramor, a ddefnyddir i ariannu neu ddarparu sicrhad yn erbyn buddsoddiadau ecwiti tramor. Mae'r rhain yn mynd yn uniongyrchol i gronfeydd ynghyd â'r gwahaniaeth cyfnewid ar swm y buddsoddiadau cysylltiedig. Mae'r taliadau treth a chredyd sy'n berthnasol i whaniaethau cyfnewid ar y benthyciadau hynny hefyd yn cael eu trin yn y cronfeydd wrth gefn. Mae cyfrifon is-gwmnïau tramor yn cael eu trosi ar y gyfradd gyfnewid sy'n berthnasol ar ddyddiad y fantolen ac mae'r gwahaniaethau sy'n deillio o drosi'r buddsoddiadau net agoriadol yn mynd i'r cronfeydd wrth gefn.

LL) Offerynnau deilliannol

Mae'r Grŵp yn defnyddio contractau arian cyfred tramor ymlaen i leihau datguddiad i gyfraddau cyfnewid tramor. Polisi'r Grŵp yw bod ei offerynnau deilliannol yn gymwys i gyfrifo sicrhad pan fodlonir y meini prawf canlynol:

- rhaid i'r offeryn fod yn gysylltiedig gydag ased arian cyfred tramor neu atebolrwydd sy'n debygol ac y mae ei nodweddion wedi eu hadnabod;

- rhaid iddo ymwneud â'r un arian cyfred â'r eitem sicr, a

- rhaid iddo leihau risg symudiadau arian cyfred tramor ar weithrediadau'r Grŵp.

Daliadau'r Post Brenhinol ccc

Polisïau cyfrifeg a nodiadau cyffredinol (parhad)

Defnyddir y cyfraddau contractio i gofnodi'r eitem sicr. O ganlyniad, gwrthbwysir enillion a cholledion yn erbyn enillion neu golledion cyfnewid tramor ar yr asedion a'r rhwymedigaeth ariannol cysylltiedig. Pan ddefnyddir yr offeryn i sicrhau trafodaeth ymrwymedig neu debygol yn y dyfodol, nid yw enillion neu golledion yn cael eu cydnabod nes bydd y drafodaeth wedi digwydd.

At hyn, defnyddir nwyddau deilliannol dros-y-cownter i reoli'r risgiau nwyddau a chyfnewid tramor sy'n gysylltiedig gyda'r polisi prynu tanwydd.

Daliadau'r Post Brenhinol ccc

Cyfrif elw a cholled y Grŵp

		52 wythnos yn diweddu 30 Mawrth 2003			53 wythnos yn diweddu 31 Mawrth 2002		
	Nodyn	**Cyn eitemau eithriadol £m**	**Eitemau eithriadol (nodyn 4) £m**	**Cyf £m**	Cyn eitemau eithriadol £m	Eitemau eithriadol (nodyn 4) £m	Cyf £m
Trosiant: Grŵp a chyfran trosiant cyd-fentrau		**8,378**	**-**	**8,378**	8,408	-	8,408
Llai: cyfran o drosiant cyd-fentrau		**(79)**	**-**	**(79)**	-	-	-
Trosiant - gweithrediadau parhaus		**8,299**	**-**	**8,299**	8,408	-	8,408
Parhaus		**8,299**	**-**	**8,299**	8,377	-	8,377
Pryniannau		**-**	**-**	**-**	31	-	31
Trosiant	1	**8,299**	**-**	**8,299**	8,408	-	8,408
Costau staff	2	**(4,632)**	**(564)**	**(5,196)**	(4,865)	(513)	(5,378)
Dadbrisiant a symiau eraill a ddiddymwyd asedion sefydlog dirweddol ac anirweddol:							
Dadbrisiant ac amortieiddiad	3	**(233)**	**-**	**(233)**	(271)	-	(271)
Amhariad	3/4	**-**	**(97)**	**(97)**	-	(446)	(446)
Taliadau gweithredu eraill	4	**(3,415)**	**(36)**	**(3,451)**	(3,339)	(179)	(3,518)
Incwm gweithredu arall	4	**-**	**-**	**-**	-	19	19
Cyfanswm costau gweithredu net		**(8,280)**	**(697)**	**(8,977)**	(8,475)	(1,119)	(9,594)
Elw/(colled) gweithredu'r Grŵp - Gweithrediadau parhaus							
Parhaus		**19**	**(697)**	**(678)**	(67)	(1,119)	(1,186)
Elw/(colled) gweithredu'r Grŵp)	3	**19**	**(697)**	**(678)**	(67)	(1,119)	(1,186)
Cyfran o elw gweithredol mewn cyd-fentrau		**18**	**-**	**18**	-	-	-
Cyfran o elw gweithredol mewn cyfranogion		**12**	**-**	**12**	4	-	4
Amhariad ewyllys da mewn cyfranogion	4	**-**	**(24)**	**(24)**	(5)	(7)	(12)
Cyfanswm elw/(colled): Grŵp a chyfran cyd-fentrau a chyfranogion		**49**	**(721)**	**(672)**	(68)	(1,126)	(1,194)
Elw net gwaredu asedion sefydlog dirweddol	4	**-**	**24**	**24**	-	24	24
Elw/(colled) gwaredu is-ymgymeriadau		**-**	**2**	**2**	-	(10)	(10)
Elw/(colled) ar weithgareddau arferol cyn llogau		**49**	**(695)**	**(646)**	(68)	(1,112)	(1,180)
Llog net derbyniadwy	5	**35**	**-**	**35**	56	-	56
Elw/(colled) ar weithgareddau arferol cyn trethi		**84**	**(695)**	**(611)**	(12)	(1,112)	(1,124)
Trethi	6			**52**			179
Colled ar weithgareddau arferol ar ôl trethi				**(559)**			(945)
Buddiannau lleiafrifol ecwiti				**-**			5
Colled a drosglwyddwyd i gronfeydd wrth gefn ar gyfer y flwyddyn ariannol	18			**(559)**			(940)

Datganiad y Grŵp ar gyfanswm enillion a cholledion canfyddedig

	52 wythnos a ddiweddodd 30 Mawrth 2003	53 wythnos a ddiweddodd 31 Mawrth 2002
	£m	£m
Colled ar gyfer y flwyddyn ariannol heb gynnwys cyfranelw mewn cyd-fentrau a chyfranogion	**(588)**	(943)
Cyfran elw cyd-fentrau ar gyfer y flwyddyn	**18**	-
Cyfran elw cyfranogion ar gyfer y flwyddyn	**11**	3
Colled ar gyfer y flwyddyn ariannol	**(559)**	(940)
Gwahaniaethau cyfnewid ar drosi asedion net a benthyciadau	**40**	(13)
Enillion heb eu sylweddoli ar drafodaethau cyd-fentrau/cyfranogion	**2**	15
Cyfanswm colledion cydnabyddedig ar gyfer y flwyddyn ariannol	**(517)**	(938)

Nid oes datganiad o elw a cholledion cost hanesyddol gan fod y cyfrifon wedi eu cyhoeddi dan y confensiwn cyfrifeg cost hanesyddol.

Daliadau'r Post Brenhinol ccc

Mantolenni

	Nodyn	Grŵp		Cwmni	
		Ar 30 Mawrth 2003 £m	Ar 31 Mawrth 2002 £m	**Ar 30 Mawrth 2003 £m**	Ar 31 Mawrth 2002 £m
Asedion sefydlog					
Asedion annirweddol	7	**156**	**146**	-	**-**
Asedion dirweddol	8	**1,648**	1,783	**-**	-
Buddsoddiadau mewn cyd-fentrau:	9	**10**	**-**	-	**-**
Cyfran asedion gros		**64**	**-**	-	**-**
Cyfran rhwymedigaethau gros		**(54)**	-	**-**	-
Buddsoddiadau mewn cyfranogion	9	**62**	**80**	-	**-**
Buddsoddiadau eraill	9	**11**	14	**2,180**	2,725
		1,887	2,023	**2,180**	2,725
Asedion cyfredol					
Stociau		**33**	**42**	-	**-**
Dyledwyr - derbyniadwy heibio un flwyddyn	10	**712**	**549**	-	**-**
Dyledwyr - derbyniadwy o fewn blwyddyn	10	**1,296**	**882**	-	-
Buddsoddiadau	11	**1,250**	1,800	**-**	-
Arian yn y banc ac mewn llaw		**1,060**	1,054	**-**	-
		4,351	4,327	**-**	-
Credydwyr - symiau dyledus o fewn blwyddyn	12	**(2,566)**	**(2,340)**	-	**-**
Asedion cyfredol net		**1,785**	**1,987**	-	**-**
Cyfanswm asedion llai rhwymedigaethau cyfredol		**3,672**	**4,010**	2,180	**2,725**
Credydwyr - symiau dyledus ar ôl mwy na blwyddyn	13	**(618)**	(655)	**-**	-
Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau	17	**(966)**	(750)	**-**	-
		2,088	2,605	**2,180**	2,725
Cyfalaf a chronfeydd wrth gefn					
Cyfalaf cyfranddaliadau wedi eu galw i fyny	19	**-**	**-**	-	**-**
Cyfrif elw a cholled	18	**218**	**2,346**	2,180	**2,481**
Cronfa Wrth Gefn Post	18	**1,853**	**-**	-	**-**
Cronfa wrth gefn Difidend	18	**-**	244	**-**	244
Cronfeydd eraill	18	**17**	15	**-**	-
Cyfanswm cyfalaf a chronfeydd wrth gefn		**2,088**	2,605	**2,180**	2,725

Cymeradwywyd gan y Bwrdd ar 28 Mai 2003

Allan Leighton **Marisa Cassoni**

Datganiad llif arian y Grŵp

	Nodyn	**52 wythnos tan 30 Mawrth 2003 £m**	53 wythnos tan 31 Mawrth 2002 £m
Llif arian net o weithgareddau gweithredol	(a)	**(383)**	12
Difidendau o gyd-fentrau a chyfranogion			
Difidendau cyfranogion		**7**	1
Mewnlif arian o ddifidendau o gyd-fentrau a chyfranogion		**7**	1
Adenillion ar fuddsoddiadau a gwasanaethu cyllid			
Llogau a dderbyniwyd		**69**	111
Llogau a dalwyd		**(35)**	(32)
Mewnlif arian net o adenillion ar fuddsoddiad a gwasanaethu cyllid		**34**	79
Trethi			
Treth gorfforaethol a adenillwyd		**17**	13
Mewnlif arian o drethi		**17**	13
Gwariant cyfalaf a buddsoddiad ariannol			
Prynu asedion sefydlog dirweddol		**(221)**	(216)
Prynu buddsoddiadau asedion sefydlog		**-**	(6)
Gwerthu asedion sefydlog dirweddol		**58**	61
Gwerthu buddsoddiadau asedion sefydlog		**4**	4
Allanlif arian net o wriant cyfalaf a buddsoddiad ariannol		**(159)**	(157)
Pryniannau a gwerthiannau			
Prynu is-ymgymeriadau		**-**	(14)
Prynu diddordeb mewn cyd-fentrau a chyfranogion		**-**	(25)
Talu ystyriaeth ohiriedig mewn perthynas â phryniannau blynyddoedd blaenorol		**(9)**	(9)
Gwerthu is-ymgymeriadau		**7**	-
Allanlif arian net o bryniannau a gwerthiannau		**(2)**	(48)
Allanlif arian cyn defnyddio adnoddau hylifol a chyllido		**(486)**	(100)
Rheoli adnoddau hylifol			
Symudiad net mewn buddsoddiadau asedion cyfredol	(b)	**550**	363
Mewnol arian net cyn cyllido		**64**	263
Cyllido			
Ad-dalu cytundebau hur-bwrcas	(b)	**(37)**	(83)
Benthyciadau hirdymor newydd	(b)	**53**	1
Ad-dalu benthyciadau	(b)	**(77)**	(9)
Allanlif arian net o gyllido		**(61)**	(91)
Cynnydd mewn arian		**3**	172

Datganiad llif arian y Grŵp (parhad)

Cysoniad llif arian net i symudiad mewn cronfeydd net

	Nodyn	**52 wythnos tan 30 Mawrth 2003 £m**	53 wythnos tan 31 Mawrth 2002 £m
Cynnydd mewn arian		**3**	172
Ad-dalu cytundebau hur-bwrcas	**(b)**	**37**	83
Benthyciadau hirdymor newydd	**(b)**	**(53)**	(1)
Ad-dalu benthyciadau	**(b)**	**77**	9
Llif arian o reoli adnoddau hylifol	(b)	**(550)**	(363)
Newid mewn cronfeydd net yn deillio o lifau arian		**(486)**	(100)
Gwahaniaethau cyfnewid	**(b)**	**1**	(8)
Symudiad mewn cronfeydd net		**(485)**	(108)
Cronfeydd net agoriadol	(b)	**2,158**	2,266
Cronfeydd net wrth gloi	(b)	**1,673**	2,158

Nodiadau i'r datganiad llif arian

(a) Cysoni colled gweithredu i lif arian net o weithgareddau gweithredol

	52 wythnos tan 30 Mawrth 2003 £m	53 wythnos tan 31 Mawrth 2002 £m
Colled weithredol y Grŵp	**(678)**	(1,186)
Dadbrisiant ac amorteiddio	**233**	271
Amhariad	**97**	446
	(348)	(469)
Newid mewn asedion gweithredu a rhwymedigaethau		
Stociau	**9**	2
Dyledwyr	**(573)**	(69)
Credydwyr	**198**	(100)
Balansau client gwasanaethau cownter	**67**	(4)
Darpariaethau	**264**	652
Arian net (allanlif)/mewnlif o weithgareddau gweithredol	**(383)**	12

Llifau arian yn delio gyda gweithredu eitemau eithriadol
Wedi eu dyledu yn y flwyddyn gyfredol a blynyddoedd blaenorol

Roedd yr allanlifoedd arian net mewn perthynas â'r uchod fel a ganlyn:

	2003	2002
Allanlif net yn delio gydag:	**£m**	£m
Eitemau eithriadol y flwyddyn gyfredol	**29**	53
Eitemau eithriadol blynyddoedd blaenorol	**210**	-
Cyfanswm	**239**	53

Mae'r allanlif arian net o weithgareddau gweithredol yn cynnwys allanlifau arian o £93m mewn perthynas ag ail-strwythuro'r gwasanaethau parseli, £19m mewn perthynas â'r rhaglen ail-strwythuro'r rhwydwaith cludiant a £127m ar gyfer costau diswyddo a chostau amrywiol eraill.

(b) Dadansoddiad o gronfeydd net

	Ar 1 Ebrill 2002 £m	Llif Arian £m	Gwahaniaethau cyfnewid £m	**Ar 30 Mawrth 2003 £m**
Arian yn y banc ac mewn llaw	1,054	3	3	**1,060**
Dyled dyledus y tu hwnt i flwyddyn	(581)	67	(1)	**(515)**
Dyled dyledus o fewn blwyddyn	(9)	(43)	(1)	**(53)**
Cytundebau hur-bwrcas dyledus y tu hwnt i flwyddyn	(70)	35	-	**(35)**
Cytundebau hur-bwrcas dyledus o fewn blwyddyn	(36)	2	-	**(34)**
Buddsoddiadau ased cyfredol	1,800	(550)	-	**1,250**
	2,158	(48)	1	**1,673**

Daliadau'r Post Brenhinol ccc

Nodiadau i'r cyfrifon

1 Gwybodaeth adrannol

Dadansoddiad o'r trosiant	52 wythnos yn diweddu Mawrth 2003 Cyfanswm trosiant	Trosiant rhwng adrannau	£m Trosiant Allanol	52 wythnos yn diweddu Mawrth 2002 Cyfanswm trosiant	Trosiant rhwng adrannau	£m Trosiant Allanol
Yn ôl dosbarth busnes						
Llythyrau a Pharseli	7,364	(13)	7,351	7,367	(17)	7,350
Gwasan. Cownter	**1,186**	**(287)**	**899**	1,290	(337)	953
Busnesau eraill	**151**	**(102)**	**49**	212	(107)	105
Cyf.	**8,701**	**(402)**	**8,299**	8,869	(461)	8,408
Yn ôl ardal ddaearyddol tarddiad						
Y Deyrnas Gyfunol			**7,481**			7,752
Gweddill y Byd (Ewrop yn bennaf)			**818**			656
Cyf.			**8,299**			8,408

Dadansoddiad o (golled)/elw cyn trethi

Yn ôl dosbarth busnes	Gweithgaredd weithredol	Budd-dâl Pensiwn	Cyn Eitemau eithriadol	Eitemau eithriadol	£m Cyfanswm	Gweithgaredd weithredol	Budd-dâl Pensiwn	Cyn Eitemau eithriadol	Eitemau eithriadol	£m Cyfanswm
Llythyrau a Pharseli	12	205	217	(496)	(279)	(138)	205	67	(1,022)	(955)
Gwasanaethau Cownter	(209)	21	(188)	**(185)**	**(373)**	(164)	20	(144)	(94)	(238)
Busnesau eraill	**(30)**	**20**	**(10)**	**(16)**	**(26)**	(15)	25	10	(3)	7
Budd-dal Pensiwn	**246**	**(246)**	**-**	**-**	**-**	250	(250)	-	-	-
Elw/(colled) weithredol y Grŵp	**19**	**-**	**19**	**(697)**	**(678)**	(67)	-	(67)	(1,119)	(1,186)
Yn ôl ardal ddaearyddol tarddiad										
Y Deyrnas Gyfunol			**12**	**(690)**	**(678)**			(17)	(868)	(885)
Gweddill y Byd (Ewrop yn bennaf)			**7**	**(7)**	**-**			(50)	(251)	(301)
Colled weithredol y Grŵp			**19**	**(697)**	**(678)**			(67)	(1,119)	(1,186)
Cyfran elw gweithredol mewn cyd-fentrau			**18**	**-**	**18**			-	-	-
Cyfran elw gweithredol mewn cyfranogion			**12**	**-**	**12**			4	-	4
Amhariad ewyllys da mewn cyfranogion			**-**	**(24)**	**(24)**			(5)	(7)	(12)
Elw ar werthu asedion sefydlog			**-**	**24**	**24**			-	24	24
Elw/(colled) ar werthu is-gwmnïau			-	2	2			-	(10)	(10)
Llog net derbyniadwy			**35**	**-**	**35**			56	-	56
Elw/(colled) ar weithgareddau arferol cyn trethi			**84**	**(695)**	**(611)**			(12)	(1,112)	(1,124)

Dadansoddiad o asedion net (rhwymedigaethau) yn ôl dosbarth busnes	Ar 30 Mawrth 2003 £m	Ar 30 Mawrth 2002 £m
Llythyrau a Pharseli	1,533	1,225
Gwasanaethau cownter	**(108)**	(286)
Busnesau eraill	**(2)**	(35)
	1,423	904
Cyfran asedion net cyd-fentrau	10	-
Cyfran asedion net cyfranogion	62	80
Asedion net heb eu dyrannu	**593**	1,621
Cyfanswm asedion net	**2,088**	2,605

Mae asedion net heb eu dyrannu yn cynnwys yn bennaf fuddsoddiadau ased cyfredol, trethi a benthyciadau. Roedd holl asedion net ar wahân i £300m (2002 £143m) wedi eu lleoli yn y Deyrnas Gyfunol, gyda'r gweddill yn Ewrop.

2 Costau staff	**2003 £m**	2002 £m
Cyflogau	**4,628**	4,778
Costau nawdd cymdeithasol	**303**	323
Costau Pensiwn (nodyn 21)	**265**	277
	5,196	5,378

Roedd benthyciad i un swyddog gwerth £3,818 (2002 - un swyddog £5,516) heb ei dalu ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae costau staff yn cynnwys £564m (£364m cyflogau a £200m costau pensiwn), a gynhwysir mewn eitemau eithriadol (2002 £513m, £313m a £200m yn eu tro).

Niferoedd staff ar gyfartaledd, yn cael eu cyfrifo ar sail swyddi cyfwerth â llawn-amser, gan gynnwys gweithwyr rhan-amser oedd:

	2003 Gweithwyr	2002 fel a ail-ddatganwyd Gweithwyr
Llythyrau a pharseli'r DG	**176,381**	181,264
Gwasanaethau cownter	**13,893**	14,564
Arall	**15,706**	17,139
Parseli Ewropeaidd	**9,587**	8,843
Cyfanswm y Grŵp	**215,567**	221,810

	2003	2002
Is-bostfeistri ar ddiwedd y flwyddyn	**14,567**	14,901

Mae manylion taliadau i Gyfarwyddwyr a hawliau pensiwn wedi eu cynnwys ar dudalennau 17 i 21.

3 Colled Weithredol	**2003 £m**	2002 £m
Nodir colled weithredol y Grŵp ar ôl codi tâl/(credydu):		
Dadbrisio ac amorteiddio:		
Dadbrisiad asedion a feddiannir	**196**	220
Dadbrisiad asedion a ddelir dan gytundebau hur-bwrcas	**27**	28
Amoriteiddio asedion anirweddol	**10**	23
	233	271
Diddymiad amhariad:		
Asedion a feddiannir	**90**	148
Asedion a ddelir dan gytundeb hur-bwrcas	**-**	39
Asedion anirweddol	**7**	259
	97	446
Costau is-bostfeistri	**575**	565
Gwariant ymchwil a datblygiad	**5**	9
Taliadau prydlesau gweithredu:		
Tir ac adeiladau	**113**	136
Cerbydau ac offer	**89**	50
Llog net gwasanaethau cownter derbyniadwy (nodyn 5)	**(6)**	(1)
Gwariant a ad-dalwyd i:		
Postcomm	**6**	5
Postwatch	**10**	7

3 Colled weithredol (parhad)

	2003	2002
Taliadau archwiliwyr:	**£000**	£000
Gwasanaethau archwilio - y flwyddyn bresennol	**1,409**	1,269
- y flwyddyn flaenorol	**109**	-
Cyfanswm gwasanaethau archwilio	**1,518**	1,269
Gwasanaethau heb fod yn wasanaethau archwilio - DG:		
Gwasanaethau diwydrwydd dyledus a threthi mewn perthynas â gweithgareddau prynu a gwerthu	**132**	1,927
Gwasanaethau rheoli, trethi, cyfrifeg a sicrhad arall	**1,298**	3,292
Gwasanaethau cynghori eraill	**515**	1,007
Cyfanswm gwasanaethau heb fod yn wasanaethau archwilio - DG	**1,945**	6,226
Tramor	**438**	1,679
Cyfanswm gwasanaethau heb fod yn wasanaethau archwilio	**2,383**	7,905

4 Eitemau Eithriadol	**2003 £m**	2002 £m
Cydnbyddedig wrth ddod at golled weithredol y Grŵp:		
Adennill colledion yn deillio o gyflenwi gwasanaethau ar gyfer trwyddedu teledu	-	19
Diddymiadau amhariad	**(97)**	(446)
Darpariaeth ar gyfer eiddo dros ben	**(18)**	(10)
Darpariaeth ar gyfer ail-strwythuro'r rhwydwaith cludiant	**(47)**	(156)
Darpariaeth ar gyfer ail-strwythuro'r gwasanaethau parseli	**5**	(298)
Darpariaeth ar gyfer un dosbarthiad y dydd	**(245)**	-
Darpariaethau diswyddo eraill	**(250)**	(228)
Arall	**(45)**	-
	(697)	(1,119)
Cydnabyddedig islaw colled weithredol y Grŵp:		
Amhariad ewyllys da mewn cyfranogion	**(24)**	(7)
Elw net ar werthu asedion sefydlog dirweddol (dim treth neu effaith llog leiafrifol)	**24**	24
Elw/(colled) ar werthu is-gwmnïau	**2**	(10)
	(695)	(1,112)

Ymgymerwyd ag arolygon amhariad gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt briodol sy'n berthnasol i'r mathau penodol hyn o asedion o 8% a thrwy gyfeirio at ragolygon i'r dyfodol yn unol â chyfraddau twf ar gyfartaledd hirdymor. Mae'r diddymiadau amhariad o £97m yn ymwneud ag asedion sefydlog dirweddol yn Swyddfa'r Post Cyfyngedig (£88m) a pharseli'r DG (£2m), ac ewyllys da yn y DG ac is-gwmnïau post rhyngwladol o £7m. Mae'r £24m amhariad o ewyllys da mewn cyfranogion yn bennaf yn delio gyda Spring (£19m).

Mae darpariaethau eiddo dros ben yn deillio o adael adeiladau gweinyddol a gweithredol o ganlyniad i flaengareddau ail-strwythuro'r busnes.

Mae ail-strwythuro'r rhwydwaith cludiant yn delio gyda'r fenter i symleiddio'r rhwydwaith cludiant i un mwy cyfun, seiliedig ar ffyrdd, rhanbarthol 'both a braich', a fydd yn lleihau nifer teithiau ffordd. Mae'r cynnydd yn y ddarpariaeth yn delio gyda symleiddio pellach y rhwydwaith cludiant, yn benodol, rhesymoliad y rhwydweithiau awyr a rheilffordd.

Mae ail-strwythur'r gwasanaeth parseli yn delio gyda'r penderfyniad bod Parcelforce Worldwide yn canolbwyntio yn unig ar y farchnad gynyddol ar gyfer dosbarthiadau cyflym 'gwarant amser', 'y diwrnod canlynol' a 'dau ddiwrnod', yn y DG a thramor. Mae'r busnes parseli wedi trosglwyddo ei wasanaeth parseli cyffredinol i weithrediad post y DG, a fydd yn defnyddio ei rwydwaith presennol.

Mae'r rhaglen un dosbarthiad y dydd yn delio gydag ail-strwythuro'r gwasanaeth dosbarthu llythyrau.

Mae darpariaethau diswyddo eraill yn delio gyda gwelliannau mewn effeithiolrwydd ledled y Grŵp i gefnogi'r fenter i leihau costau gros gan £1.4bn y flwyddyn. Mae'r cynnydd yn y ddarpariaeth yn delio gydag arolygon effeithiolrwydd pellach yng ngweithrediadau llythyrau'r DG a gwasanaethau cownter, ac ail-strwythuro mawr y Grŵp yn chwe uned busnes craidd - Gwasanaethau Cownter, Llythyrau, Parcelforce, Llythyrau Rhyngwladol, Logisteg a GLS, ac uned gefnogi ganolog.

Mae 'arall' yn cynnwys darpariaethau ar gyfer rhesymoliad pellach gwasanaethau cefnogi, costau incremental rhedeg y rhaglen ddiswyddo a diddymiadau a darpariaethau amrywiol.

5 Llog net derbyniadwy

	2003 £m	2002 £m
Llog taladwy:		
- Ar fenthyciadau banc a gorddrafft	**(5)**	(4)
- Ar fenthyciadau eraill	**(29)**	(30)
	(34)	(34)
Llogau derbyniadwy	**69**	90
	35	56

Hefyd, cynhwysir llogau derbyniadwy gwasanaethau cownter o £6m (2002 £1m) gyda'r taliadau gweithredu eraill.

6 Trethi

(a) Treth ar golled ar weithgareddau arferol
Mae'r (credyd)/taliadau treth yn cynnwys y canlynol:

	2003 £m	2002 £m
Treth bresennol		
Swm derbyniadwy ar ildio colledion i gyfranogion a chyd-fentrau mewn perthynas â gostyngiad consortiwm	**(10)**	-
Treth a or-ddarparwyd mewn blynyddoedd blaenorol	**(7)**	-
	(17)	-
Trethi tramor	**2**	2
Treth bresennol y Grŵp	**(15)**	2
Swm taladwy gan gyd-fentrau mewn perthynas â gostyngiad consortiwm	**5**	-
Swm taladwy gan associates mewn perthynas â gostyngiad consortiwm	**5**	-
Cyfran treth bresennol cyfranogion sy'n daladwy	**1**	1
Cyfanswm treth bresennol (nodyn 6(b))	**(4)**	3
Treth ohiriedig y Grŵp - tarddiad a gwyrdroi gwahaniaethau amseru (nodyn 6(ch))	**(48)**	(182)
Treth ar golled ar weithgareddau arferol	**(52)**	(179)

(b) Ffactorau sy'n effeithio'r (credyd)/tâl treth bresennol
Mae'r dreth a aseswyd ar gyfer y flwyddyn yn wahanol i gyfradd safonol treth gorfforaethol yn y DG 0 30% (2002 30%). Esbonnir y gwahaniaethau isod:

	2003 £m	2002 £m
Colled ar weithgareddau arferol cyn treth	**(611)**	(1,124)
Colled ar weithgareddau arferol wedi eu lluosi gan gyfradd safonol treth gorfforaethol yn y DG o 30% (2002 30%)	**(183)**	(337)
Gostyngiad gohiriedig ar gyfer dadbrisiad ac impairment asedion	**52**	112
Gostyngiad uwch ar gyfer cyfraniadau pensiwn *	**(180)**	(31)
Darpariaethau nad ydynt yn ddidynadwy nes achosir	**88**	101
Amhariad ac amorteiddio ewyllys da	**5**	85
Colledion a gostyngiadau eraill heb eu defnyddio	**196**	57
Arall	**18**	16
Cyfanswm treth bresennol (nodyn 6(a))	**(4)**	3

* Mae cyfraniadau pensiwn yn gymwys i ostyngiad trethi yn y flwyddyn y cânt eu talu. Roedd y cyfraniadau a dalwyd yn y flwyddyn yn llawer uwch na thaliadau pensiynau i'r cyfrif elw a cholled.

6 Trethi (parhad)

(c) Ffactorau a all effeithio taliadau trethi yn y dyfodol

Mae gan y Grŵp asedion treth gohiriedig heb eu cydnabod o £146m (2002 £57m) yn ymwneud â cholledion treth mewn is-gwmnïau sydd ar gael i wrthbwyso yn erbyn elw trethadwy yn y dyfodol y cwmnïau hynny. Mae gan y Grŵp hefyd asedion treth gohiriedig heb eu cydnabod o £158m (2002 £126m) yn delio yn bennaf gyda gwahaniaethau amseriad asedion sefydlog.

Nid yw asedion treth gohiriedig wedi eu cydnabod mewn perthynas â'r eitemau hynny oherwydd eu bod wedi codi mewn cwmnïau sy'n gwneud colled, ac ni ellir defnyddio'r colledion, yn benodol, i wrthbwyso elw trethadwy yn y dyfodol mewn mannau eraill o fewn y Grŵp. Bydd yr asedion treth gohiriedig heb eu cydnabod yn cael eu cydnabod yn y dyfodol i'r pwynt y disgwylir i elw trethadwy addas fod ar gael.

Mae gan y Grŵp golledion cyfalaf wedi eu cario trosodd, effaith dreth y rhain yw oddeutu £12m (2002 £11m). Gellir gwrthbwyso'r rhain yn y dyfodol yn erbyn enillion cyfalaf. Mae'r Grŵp wedi cario trosodd enillion cyfalaf, effaith treth y rhain yw £75m (2002 £67m). Disgwylir y bydd enillion ar asedion a werthwyd yn y flwyddyn yn cael eu cario trosodd yn llwyr maes o law.

(ch) Treth ohiriedig
Mae'r dreth ohiriedig a gynhwysir yn y fantolen fel a ganlyn:

	2003 £m	2002 £m
Cynhwyswyd mewn darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau (nodyn 17)	**(10)**	(58)
Lwfansau cyfalaf gohiriedig (uwch)	**43**	(9)
Gwahaniaethau amseru cyfraniadau pensiwn	**(338)**	(158)
Darpariaethau	**197**	109
Colledion	**88**	-
	(10)	(58)

Ar 1 Ebrill 2002	(58)
Credyd treth gohiriedig yng nghyfrif elw a cholled y Grŵp (nodyn 6(a))	48
Ar 30 Mawrth 2003	(10)

7 Asedion sefydlog anirweddol

Grŵp	**Ewyllys Da**	**Asedion annirweddol erail**	**Cyfanswm**
COST	£m	£m	£m
Ar 1 Ebrill 2002	442	17	459
Symudiad cyfnewid	40	2	42
Ar 30 Mawrth 2003	**482**	**19**	**501**
AMORTEIDDIAD			
Ar 1 Ebrill 2002	312	1	313
Symudiad cyfnewid	15	-	15
Tâl ar gyfer y flwyddyn	9	1	10
Amhariad	Gr7	-	7
Ar 30 Mawrth 2003	**343**	**2**	**345**
SWM LLYFR NET			
Ar 30 Mawrth 2003	**139**	**17**	**156**
Ar 1 Ebrill 2002	130	16	146

Mae ewyllys da yn deillio o bryniannau yn cael ei amorteiddio yn gyfartal dros ei oes economaidd ddefnyddiol amcangyfrifiedig o 20 mlynedd.

8 Asedion sefydlog dirweddol

Grŵp	Tir ac adeiladau						
	Rhyddfraint	Prydles hir	Prydles fer	Offer a pheiriannau	Cerbydau modur	Gosodion ac offer	Cyfanswm
COST	**£m**	**£m**	**£m**	**£m**	**£m**	**£m**	**£m**
Ar 1 Ebrill 2002	1,589	225	366	624	342	862	4,008
Symudiadau cyfnewid	7	1	-	4	-	4	16
Ail-ddosbarthu	(26)	4	22	(2)	-	2	-
Ychwanegiadau	25	5	59	70	8	36	203
Gwerthiannau	(38)	(3)	(25)	(30)	(104)	(48)	(248)
Ar 30 Mawrth 2003	**1,557**	**232**	**422**	**666**	**246**	**856**	**3,979**
DADBRISIAD CRONNOL							
Ar 1 Ebrill 2002	648	114	174	306	197	786	2,225
Symudiadau cyfnewid	-	1	-	2	-	3	6
Ailddosbarthiad	-	-	-	(1)	-	1	-
Tâl ar gyfer y flwyddyn	52	7	32	57	38	37	223
Amhariad	12	7	13	-	30	28	90
Gwerthiannau	(25)	(1)	(24)	(28)	(89)	(46)	(213)
Ar 30 Mawrth 2003	**687**	**128**	**195**	**336**	**176**	**809**	**2,331**
SWM LLYFR NET							
Ar 30 Mawrth 2003	**870**	**104**	**227**	**330**	**70**	**47**	**1,648**
Ar 1 Ebrill 2002	941	111	192	318	145	76	1,783

Mae'r symiau llyfr net a ddelir dan gontractau hur-bwrcas yn dod i £110m (2002 £118m).

9 Buddsoddiadau asedion sefydlog

Grŵp	Ar 1 Ebrill 2002	Ychwanegiadau	Gwerthiannau	Amhariad/ Amorteiddio	Cyfran elw a gadwyd gan gyd-fentrau/ cyfranogion	Ar 30 Mawrth 2003
	£m	**£m**	**£m**	**£m**	**£m**	**£m**
Cyfran asedion net mewn cyfranogion	33	-	(1)	-	9	**41**
Ewyllys da	47	-	-	(26)	-	**21**
Buddsoddiad net mewn cyfranogion	80	-	(1)	(26)	9	**62**
Cyfran asedion net mewn cyd-fentrau	-	2	-	-	8	**10**
Buddsoddiadau eraill	14	-	(3)	-	-	**11**
	94	2	(4)	(26)	17	**83**

Buddsoddiadau eraill yw adneuon Awdurdod Lleol sydd â dyddiad aeddfedu heibio 12 mis ar ddyddiad prynu.

Yn ystod y flwyddyn, gwerthodd y Grŵp 49% o'i fuddsoddiad ecwiti yn Romec Limited a 50% o'i fuddsoddiad ecwiti yn First Rate Travel Holdings Limited. Mae'r ddau gwmni bellach yn gyd-fentrau, ond nid oes ewyllys da yn gysylltiedig gyda'r buddsoddiad yn y naill gwmni na'r llall. At hyn, gwerthodd y Grŵp ei holl fuddsoddiad ecwiti yn Optecon, a oedd gynt yn gyfranogwr.

Hefyd yn ystod y flwyddyn, gwerthodd y Grŵp y rhan fwyaf o'i fuddsoddiad ecwiti yn Cashtec ac ar yr un pryd prynodd fuddsoddiad di-ecwiti yn yr un cwmni. Mae Cashtec bellach yn cael ei gyfrif fel buddsdoddiad masnach, tra gynt roedd yn gyfranogwr. Mae'r cyfranogwr gwreiddiol a'r buddsoddiad masnach a ddelir nawr bellach yn cael eu cofnodi ar gyfradd sero.

Rhoddir manylion pellach y prif gyd-fentrau a chyfranogion yn nodyn 27.

9 Asedion sefydlog (parhad)

Cwmni	**2003 Cyfanswm £m**	2002 Cyfanswm £m
Ar 1 Ebrill 2002	**2,725**	-
Trosglwyddiad o Gorfforaeth Swyddfa'r Post	**-**	3,784
Newid mewn gwerth ased net is-ymgymeriad	**(545)**	(1,059)
Ar 30 Mawrth 2003	**2,180**	2,725

Mae buddsoddiad ased sefydlog y Cwmni yn cynrychioli gwerth ased net ei fuddsoddiad mewn is-ymgymeriad a ffurfiwyd yn fewnol, fel a ddatganwyd yn nodyn polisi cyfrifeg l(i).

(i) Pryniannau yn y flwyddyn flaenorol

Ni wnaed unrhyw addasiadau perthnasol yn ystod y flwyddyn i werthoedd teg darpariaethol naill ai'r ystyriaeth yn ymwneud â, na'r asedion net a brynwyd yn yr is-ymgymeriadau a brynwyd yn y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2002.

(ii) Pryniannau yn ystod y flwyddyn

Nid oedd pryniannau material is-ymgymeriadau yn ystod y flwyddyn.

Mae manylion y prif is-ymgymeriadau i'w gweld yn nodyn 27.

(iii) Gwerthiannau yn ystod y flwyddyn

Nid oedd unrhyw werthiannau perthnasol is-ymgymeriadau yn ystod y flwyddyn ar wahân i ran-werthiant Romec Limited, a ddaeth yn gyd-fenter wedi hynny. Mae manylion pellach i'w gweld yn yr ail baragraff islaw'r tabl ar ddechrau'r nodyn hwn.

10 Dyledwyr

	2003 £m	2002 £m
Derbyniadwy heibio un flwyddyn:		
Rhagdaliadau pensiwn	**707**	531
Dyledwyr eraill	**5**	18
	712	549

	2003 £m	2002 £m
Derbyniadwy o fewn blwyddyn:		
Dyledwyr masnachol	**695**	700
Rhagdaliadau pensiwn	**400**	-
Rhagdaliadau eraill ac incwm wedi cronni	**201**	182
	1,296	882

Mae'r rhagdaliadau pensiwn heibio un flwyddyn yn ymwneud â'r swm dros ben a gronnodd o'r symiau a ariannwyd yng nghynlluniau budd-dal diffiniedig dros y symiau a ddebydwyd i'r cyfrif elw a cholled cyfansawdd. Mae'r swm o fewn blwyddyn yn cynrychioli'r cyfraniadau rhagdaledig ar gyfer 2003-04.

11 Buddsoddiadau ased presennol

	2003	2002
	£m	£m
Gwarannau eurymylog y Llywodraeth	**253**	358
Adneuon byrdymor y Llywodraeth (Cronfa Fenthyciadau Genedlaethol)	**913**	1,172
Adneuon eraill	**84**	270
	1,250	1,800

Yn unol â nodyn polisi cyfrifeg I(iii), nodir buddsoddiadau ased presennol ar werth y farchnad. Y gwahaniaeth rhwng cost a gwerth ar y farchnad a ddygwyd i'r cyfrif elw a cholled ar gyfer y buddsoddiadau hyn oedd £1m (2002 £9m).

Mae'r buddsoddiadau uchod yn cynnwys adneuon o £549m sy'n destun tâl fel sicrwydd yn erbyn y benthyciadau gan yr Adran Diwydiant a Masnach. Mae balans y buddsoddiadau wedi eu cyfyngu o ran defnydd i'r hyn a ganiateir gan orchymyn adran 72, a greodd Cronfa Wrth Gefn y Post (nodyn 18).

12 Credydwyr - symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn

	2003	2002
	£m	£m
Benthyciadau (nodyn 14)	**53**	9
Ymrwymiadau dan gytundebau hur-bwrcas (nodyn 15)	**34**	36
Balansau gwasanaethau client gwasanaethau cownter	**1,054**	987
Credydwyr masnach a chroniadau	**1,026**	970
Taliadau cwsmer ymlaen llaw	**253**	220
Ystyriaeth ohiriedig (nodyn 16)	**-**	6
Treth gorfforaethol	**12**	1
Trethi eraill a nawdd cymdeithasol	**112**	104
Credydwyr eraill	**22**	7
	2,566	2,340

Mae'r Grŵp yn derbyn a thalu arian ar ran asiantaethau'r Llywodraeth i gwsmeriaid (balansau gwasanaethau client) trwy ei rwydwaith cownteri. Gall lefel cronfeydd o'r fath amrywio'n arwyddocaol ar ddyddiad pob mantolen.

13 Credydwyr - symiau dyledus ar ôl mwy na blwyddyn

	2003	2002
	£m	£m
Benthyciadau (nodyn 14)	**515**	581
Ymrwymiadau dan gytundeb hur-bwrcas (nodyn 15)	**35**	70
Ystyriaeth ohiriedig (nodyn 16)	**-**	3
Credydwr pensiwn	**68**	-
Arall	**-**	1
	618	655

14 Benthyciadau

	2003	2002
	£m	£m
Symiau syledus o fewn:		
Blwyddyn neu lai	**53**	9
Mwy na blwyddyn ond ddim mwy na dwy flynedd	**1**	3
Mwy na dwy flynedd ond ddim mwy na phum mlynedd	**5**	74
Mwy na phum mlynedd	**509**	504
	568	590

14 Benthyciadau (parhad)

Dadansoddiad o fenthyciadau

	Sicrwydd	Cyfanswm Prifswm £m	Ystod llogau %
Benthyciadau DTI:			
Benthyciadau ad-daladwy rhwng Mawrth 2001 a Medi 2025	Asedion	500	5.26 to 6.12
Benthyciad byrdymor DTI	Adneuon	50	4.06
Benthyciadau banc amrywiol hirdymor gymerwyd gan is-gwmnïau tramor	Tir ac adeiladau	18	2.13 to 7.35
		568	

